

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

# Dogfen Ymgynghori Ffurfiol cynnig i wella darpariaeth a meithrin gallu ar gyfer Disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar draws y Fwrdeistref Sirol

Bydd yr ymgynghoriad yn dechrau:
Ddydd Llun 24 Ebrill 2023 a daw i ben
Ddydd Mawrth 6 Mehefin 2023

Cyngor Bwrdeistref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

## Am beth mae'r llyfryn hwn?

Paratowyd y llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgol, llywodraethwyr ysgol a chymuned ehangach Blaenau Gwent. Mae'r llyfryn yn rhoi trosolwg o'r broses ymgynghori sy'n gysylltiedig gyda chynnig ffurfiol y Cyngor ar gyfer **model cyflenwi i wella darpariaeth a meithrin gallu ar gyfer disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) ar draws y Fwrdeistref Sirol.** Bydd o ddiddordeb neilltuol i rieni/gofalwyr y mae eu plant yn mynychu Canolfan Adnoddau.

Cysylltwch â'r Tîm Trawsnewid Addysg drwy e-bost neu dros y ffôn os gwelwch yn dda os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn unrhyw fformat arall:

- **E-bost: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk neu**
- **Ffôn: (01495) 355470**



**Geirfa –** Gofynnir i chi nodi'r termau dilynol a ddefnyddir drwy'r ddogfen hon:

| | |
|---|---|
| **Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)** | Mae gan ddisgybl ADY os oes anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. |
| **Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig (ASD)** | **Cyflwr** datblygiadol cymhleth sy'n golygu heriau parhaus mewn rhyngweithio cymdeithasol, lleferydd a chyfathrebu aneiriol ac ymddygiad cyfyngedig/ailadroddus. Mae effeithiau ASD a difrifoldeb symptomau yn wahanol ym mhob person. |
| **Awdurdod Lleol** | Sefydliad sy'n swyddogol gyfrifol am yr holl wasanaethau a chyfleusterau cyhoeddus mewn ardal neilltuol. |
| **Canolfan Adnoddau** | Lleoliad bach mewn ysgol brif ffrwd ar gyfer disgyblion gyda ADY na all eu hanghenion gael eu diwallu yn y brif ffrwd yn unig. Caiff disgyblion eu haddysgu gan athrawon arbenigol a chynorthwywyr cymorth dysgu. Rhagwelir y bydd disgyblion sy'n defnyddio canolfan adnoddau hefyd yn cael cyfleoedd i fynychu dosbarthiadau prif ffrwd. |
| **Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD)** | Mae CYBLD yn gasgliad electronig o ddata disgyblion a lefel ysgol a ddarperir gan bob ysgol gynradd, ganol, uwchradd, meithrin ac ysgol arbennig a gynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn (mae mwy o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru). |
| **Cynllun Datblygu Lleol** | Mae'n gosod cynigion pob awdurdod **cynllunio lleol** ar gyfer **datblygu** yn y dyfodol a defnydd tir yn eu hardal. |
| **Datganiad Anghenion Dysgu Ychwanegol** | Disgybl gyda datganiad Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol sydd ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol. Mae hyn yn golygu:<br>• fod y disgybl yn cael yn sylweddol mwy o anhawster i ddysgu na'r rhan fwyaf o ddisgyblion o'r un oedran; neu<br>• mae gan y disgybl anabledd sydd angen cyfleusterau addysgol gwahanol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu fel arfer ar gyfer disgyblion. |
| **Hysbysiad Statudol** | Hysbysiad statudol yw cyhoeddiad ffurfiol cynnig terfynol. Dim ond pan fydd Pwyllgor Gweithrediaeth y Cyngor yn penderfynu symud ymlaen gyda chynnig y gwneir hyn, ar ôl ystyried yr holl ymatebion i'r broses ymgynghori. Mae hyn yn ofyniad cyfreithiol fel yr amlinellir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018). |
| **Nifer ar y Gofrestr** | Nifer disgyblion mewn ysgol (heb fod yn cynnwys disgyblion meithrin a Chanolfan Dysgu Lleol). |
| **Oedran Ysgol Statudol** | Plentyn sydd dros 5 oed a dan 16 oed sy'n gymwys i fynychu ysgol |
| **Plentyn sy'n derbyn gofal** | Plentyn yng ngofal Awdurdod Lleol naill ai: drwy Orchymyn Gofal a wneir gan lys, neu gytundeb gwirfoddol gyda rhiant/rhieni y plentyn i'w letya. |
| **Ysgol Arbennig** | Ysgol ar gyfer disgyblion gydag angen dysgu/meddygol cymhleth neu anabledd, na all eu hanghenion gael eu diwallu mewn ysgol brif ffrwd neu ddarpariaeth Canolfan Adnoddau. Bydd gan y disgyblion mewn ysgol arbennig naill ai ddatganiad Anghenion Addysgol Arbennig neu Gynllun Datblygu Unigol. |

# Tabl Cynnwys


| | Tudalen |
|---|---|
| **Adran 1:** Cyflwyniad | 6-7 |
| **Adran 2:** Proses ymgynghori | |
| • Gyda phwy yr ydym yn ymgynghori | 7 |
| • Trosolwg o'r ymgynghoriad | 7-8 |
| • Ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc | 8 |
| **Adran 3:** Y Cynnig | |
| • Trosolwg | 9 |
| • Amcanion buddsoddi | 10 |
| • Rhesymeg a gwybodaeth gefndir – pam fod angen newid | 10 |
| • Polisïau ac egwyddorion ADY | 10 |
| • Safonau darpariaeth | 10 |
| • Yr angen am leoedd ychwanegol a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion | 11-12 |
| • Canolfannau Adnoddau Dysgu | 12 |
| • Pandemig Covid a thema sy'n dod i'r amlwg yn dilyn Covid | 12-13 |
| • Y galw am leoedd | 13 |
| • Ysgolion arbenigol | 13 |
| • Blynyddoedd Cynnar a Darpariaeth Feithrin | 13 |
| • Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol | 14 |
| • Darpariaeth cyfrwng Cymraeg | 14-15 |
| • Yr opsiynau a ystyriwyd | 15-16 |
| • Yr opsiwn a ffafrir | 16 |
| • Risgiau a lliniaru | 16-17 |
| • Manteision y Cynnig | 17 |
| • Y buddion a'r manteision a ddisgwylir (o gymharu gyda'r status quo – gwneud dim) | 17 |
| | 17 |
| • Anfanteision | 17 |
| • Model llywodraethiant | 18 |
| • Trefniadau teithio dysgwyr | 18 |
| **Adran 4**: Canlyniad yr Ymgynghoriad a'r Camau Nesaf | |
| • Adroddiad yr ymgynghoriad | 19 |
| • Hysbysiad Statudol | 19 |
| • Penderfyniad y Cynnig | 19 |
| • Hysbysiad am y penderfyniad | 19 |
| • Amserlen | 19 |
| **Adran 5:** Manylion Ysgolion yr Effeithir Arnynt | |
| • Ysgolion yr effeithir arnynt yn uniongyrchol | 20 |
| • Ysgolion yr effeithir yn anuniongyrchol arnynt | 20 |
| • Datganiad am gapasiti dros ben | 20-21 |

**Adran 6:** Ystyriaethau Eraill

- Cyllid 21
- Costau refeniw 21-22
- Costau cludiant 22
- Costau cyfalaf 22-23
- Costau cyfalaf/Derbynebau cyfalaf 23
- Trefniadau derbyn 23
- Effaith y Cynnig ar y Gymraeg 23
- Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb 23
- Asesiadau o’r Effaith ar y Gymuned a’r Gymraeg 23
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (UNCRC) 23-24
- Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn yr ymgynghoriad hwn 24
- Datblygiadau tai 24
- Adnoddau dynol 24-25
- Partneriaethau 25

**Adran 7:** Trefniadau Presennol

- Estyn 25
- Ansawdd a Safonau mewn Addysg 25-26
    - Safonau 26
    - Llesiant ac agweddau at ddysgu 26
    - Profiadau addysgu a dysgu 26
    - Gofal, cefnogaeth ac arweiniad 26
    - Arweinyddiaeth a rheolaeth 27
- Effaith y cynnig 27

**Adran 8:** Trosolwg o’r Cynnig 27-29

- Nifer derbyn a threfniadau a nifer lleoedd meithrin
- Ystod oedran
- Lleoedd disgyblion
- Capasiti
- Lleoliad
- Categori ac iaith ysgol
- Rhestr adeiladau
- Rhestr cyfleusterau a ddarperir dan y Cynnig
- Dalgylchoedd ysgolion
- Trefniadau pontio

**Adran 9: Ffurflen** 30

**Atodiad 1**: Rhestr ymgyngoreion 31

**Atodiad 2:** Lleoliad, nifer disgyblion a phrosiectau ar gyfer yr ysgolion yr effeithir arnynt 32

**Atodiad 3**: Arolwg cyflwr ac adolygiad cyfleusterau ar gyfer yr ysgolion yr effeithir arnynt 33

**Atodiad 4**: Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned 34-36

**Atodiad 5:** Canlyniadau Estyn ar gyfer cynigion newydd 37-38

**Atodiad 6**: Argymhellion Estyn ar gyfer cynigion newydd 39-40

**Tablau:**

1. Sesiynau galw heibio 8
2. Rhestr hir o opsiynau 15-16
3. Risgiau a lliniaru 16-17
4. Amserlen y broses statudol 19
5. Dadansoddiad posibl o gostau fesul Canolfan Adnoddau pob ysgol unigol 22-23
6. Cyfnod 1 Canolfannau Adnoddau newydd a gynigir 27-28
7. Cyfnod 2 Canolfannau Adnoddau newydd a gynigir 28

**Ffigurau**

1. Darpariaeth gyfredol Canolfannau Adnoddau Cynradd 11
2. Darpariaeth gyfredol Canolfannau Adnodd Uwchradd 11
3. Data Canolfannau Adnoddau Cynradd am y 5 mlynedd ddiwethaf 12
4. Data Canolfannau Adnoddau Uwchradd am y 5 mlynedd ddiwethaf 12
5. Amcanestyniadau disgyblion ar gyfer Canolfannau Adnoddau Cynradd 14
6. Amcanestyniadau disgyblion ar gyfer Canolfannau Adnoddau Uwchradd 14
7. Darluniad o ddatblygiadau tai 24

# Adran 1: Cyflwyniad



Mae'r Cyngor yn ymroddedig i ddarparu addysg ansawdd uchel a hyfforddiant bwrpasol ar gyfer eu hanghenion i bob plentyn a pherson ifanc, a fydd yn datblygu eu potensial, ymestyn uchelgais, hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol a chyfrannu at adfywiad economaidd yr ardal. Mae adolygiad o ddarpariaeth bresennol a darpariaeth ar gyfer y dyfodol ar gyfer Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig (ASD) a hefyd Anghenion Datblygu Ychwanegol (ADY) yn hanfodol ar gyfer disgyblion i'w galluogi i gyflawni eu potensial. Felly mae'r cynnig hwn yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor.

Daeth Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod Ymarfer ADY ategol 2021 i rym gyda'r ffocws ar newid sut y cofnodir data mewn awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae'r ffocws yn awr ar ysgolion yn diwallu anghenion disgyblion dan ddarpariaeth gyffredinol a darpariaeth wedi ei thargedu drwy addysgu a dysgu ansawdd uchel.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ("y Cyngor") yn adolygu capasiti ei ysgolion yn flynyddol. Felly mae'r Cyngor yn ymateb i'r cynnydd mewn galw a thwf a nodwyd dros y 3 blynedd ddiwethaf, yn unol â cheisiadau lleoliad disgyblion i'r panel ADY ar gyfer lleoliadau Canolfannau Adnoddau ASD a hefyd ADY.

Ar hyn o bryd mae gan y Fwrdeistref Sirol ddwy ysgol arbennig, sef:

- Ysgol Arbennig Pen y Cwm sy'n darparu ar gyfer anghenion cymhleth; a
- Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon ar gyfer Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol yn cynnwys 3 safle ar wahân:
  - Cyfnod Cynradd (Canolfan Thomas Richard)
  - Cyfnod Uwchradd (safle Pontygof, Glynebwy)
  - Tŷ Stiwardiaid (Glynebwy).

Mae hefyd saith Canolfan Adnoddau Dysgu ar gyfer ASD ac ADY mewn lleoliadau prif ffrwd ar draws y Fwrdeistref Sirol:

- **Sector cynradd:**
  - Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri – Campws Six Bells
  - Ysgol Gynradd Coed y Garn
  - Ysgol Gynradd Glanhywi
  - Ysgol Gynradd Trehelyg
  - Ysgol Gynradd Ystruth
- **Sector uwchradd**
  - ADY Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri – Campws Uwchradd
  - ASD Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr – Campws Uwchradd*

*** Mae gan Gampws Uwchradd Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr hefyd ddosbarth pontio ar gyfer ysgolion a gaiff ei gydnabod yn ffurfiol dan y cynnig hwn fel canolfan adnoddau a gaiff ei rhedeg gan y Cyngor.

## Adran 2: Proses Ymgynghori

Cyn gwneud unrhyw benderfyniad ar y cynnig i **wella darpariaeth a meithrin gallu ar gyfer Disgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n cynnwys Canolfannau Adnoddau ASD ac ADY ar draws y Fwrdeistref Sirol,** mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad statudol gyda phawb sydd â diddordeb a rhai yr effeithir arnynt. Mae angen hyn gan y bydd y cynnig yn arwain at sefydlu a newid darpariaethau ADY mewn nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r broses ymgynghori.

Bydd yr ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i ymgyngoreion ddysgu mwy am, deall a mynegi eu barn ar gynnig y Cyngor, fydd yn llywio'r penderfyniad terfynol ar sut i symud ymlaen â'r cynnig. Caiff yr adborth a'r sylwadau a geir drwy'r broses ymgynghori eu casglu, eu dadansoddi a'u cynnwys mewn adroddiad ymgynghori a gyhoeddir. Dylai ymgyngoreion sy'n dymuno cofrestru eu dymuniad i gael eu hysbysu am gyhoeddi'r adroddiad ymgynghori gysylltu â'r Cyngor yn defnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon. Bydd Cabinet y Cyngor wedyn yn gwneud y penderfyniad terfynol ar p'un ai i symud ymlaen â rhai neu'r cyfan o'r cynigion yn seiliedig ar y canlyniad a'r adborth a geir yn ystod yr ymgynghoriad.

**Gyda phwy ydym yn ymgynghori**

Caiff y Ddogfen Ymgynghori hon ei dosbarthu yn unol â Fersiwn 2 Cod TrefniadaethYsgolion Llywodraeth Cymru (Tachwedd 2018). Mae **Atodiad 1** y ddogfen ymgynghori hon yn rhoi manylion y rhestr lawn o ymgyngoreion a gaiff eu targedu yn ystod y cyfnod ymgynghori statudol.

**Trosolwg o'r ymgynghoriad**

Bydd y cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynnig hwn yn dechrau **ddydd Llun 24 Ebrill 2023** a daw i ben **ddydd Mawrth 6 Mehefin 2023.** Gall ymgyngoreion gyflwyno eu barn ar y cynnnig, fodd bynnag, dylid nodi na chaiff ymatebion a geir yn ystod y cyfnod hwn eu cofnodi fel gwrthwynebiadau i'r cynnig. Dim ond ar ôl cyhoeddi'r Hysbysiad Statudol y gellir cofrestru gwrthwynebiadau. Pe byddai'r cynnig yn mynd yn ei flaen, a bod ymgyngoreion yn dymuno gwneud gwrthwynebiad, bydd angen iddynt wneud hynny mewn ysgrifen yn ystod y cyfnod hysbysiad statudol a amlinellir ar **dudalen 20.**

Hoffai'r Cyngor i chi ystyried yr wybodaeth a nodir yn y ddogfen a rhoi eich barn ar y cynigion.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cynigion neu ymholiadau ar yr wybodaeth a gynhwysir yn y ddogfen neu awgrymiadau neu amgennau i'r cynigion, gallwch gysylltu â ni drwy ddefnyddio naill ai y cyfeiriad e-bost isod neu ein ffonio ar (01495) 355470.



21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov,uk

Mae croeso i chi hefyd lenwi'r arolwg ar-lein drwy ddilyn y ddolen ddilynol:
https://online1.snapsurveys.com/d1daqu



Gellir anfon sylwadau ysgrifenedig ar y cynnig at: **Tîm Trawsnewid Addysg, Adran Addysg, Llawr 8 Llys Einion, Abertyleri, NP13 1DB.**

Dylid derbyn pob ymateb i'r ymgynghoriad erbyn **5pm ddydd Mawrth 6 Mehefin 2023 fan bellaf.**

Mae'r tîm Trawsnewid Addysg wedi cynllunio cyfarfodydd rhithiol gyda cynrychiolwyr Undebau Llafur a'r Pwyllgor Craffu. Bydd corff llywodraethu, staff, disgyblion a rhieni pob ysgol yr effeithir arnynt a'r gymuned ehangach yn cael mynediad i gyfres o sesiynau galw heibio a drefnir drwy gydol y cyfnod ymgynghori. Bydd swyddogion y Cyngor ar gael ym mhob un o'r digwyddiadau dilynol yn **Nhabl 1** i ateb unrhyw gwestiynau a all fod gennych.

**Tabl 1 – Sesiynau Galw Heibio**

| Lleoliad | Dyddiad | Amser(au) | Sesiwn wedi ei hanelu at: |
|---|---|---|---|
| Canolfan Gweithredu Dysgu Glynebwy, Stryd James, Glynebwy NP23 6JG | 2 Mai 2023 | 3pm – 6:30pm | Cyrff Llywodraethu, yr holl Staff, Rhieni a'r Gymuned yn ehangach |
| | | | |
| Tŷ Bedwellte, Stryd Morgan, Tredegar, NP22 3XN | 3 Mai 2023 | 3pm – 6:30pm | Cyrff Llywodraethu, yr holl Staff, Rhieni a'r Gymuned yn ehangach |
| | | | |
| Canolfan Ddiwylliannol a Chynadleddau Metropole Abertyleri, 2 Stryd Mitre, Abertyleri NP13 1AE | 9 Mai 2023 | 3pm – 6:30pm | Cyrff Llywodraethu, yr holl Staff, Rhieni a'r Gymuned yn ehangach |
| | | | |
| Clwb Rygbi Brynmawr, Heol Catholig, Brynmawr, Brynmawr NP23 4EF | 10 Mai 2023 | 3pm – 6:30pm | Cyrff Llywodraethu, yr holl Staff, Rhieni a'r Gymuned yn ehangach |
| | | | |

Caiff tudalen cwestiynau cyffredin ei datblygu a'i diweddaru drwy gydol y cyfnod ymgynghori ac mae ar gael ar dudalen gwefan yr ymgynghoriad. Os teimlwch yr angen i a/neu'n teimlo'n gryf am drafod y cynnig wyneb yn wyneb, cysylltwch â ni drwy gyfeiriad e-bost ysgolion 21ain ganrif fel sy'n dilyn os gwelwch yn dda: 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk a gellir trefnu cyfarfod rhithiol yn defnyddio Microsoft Teams.

**Ymgynghoriad gyda phlant a phobl ifanc**

Bydd cyfle ar gyfer disgyblion unrhyw ysgol newydd neu bresennol lle sefydlir Canolfan Adnoddau ASD neu ADY, ynghyd â phlant a phobl ifanc eraill o'r fwrdeistref sirol i gymryd rhan yn y broses ymgynghori. Bydd yr holl wybodaeth a gesglir o'r broses ymgynghori yn ffurfio rhan o adroddiad yr ymgynghoriad.

# Adran 3: Y Cynnig

**Trosolwg**
Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn cynnig cynyddu'r capasiti ar gyfer Canolfannau Adnoddau ADY ac ASD ar draws y Fwrdeistref Sirol mewn rhai ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu a newid darpariaethau ADY mewn nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd y cynnig i gynyddu lleoedd ASD ac ADY o 61 i 86 ar draws ysgolion cynradd a chynyddu'r ddarpariaeth mewn ysgolion uwchradd o 62 i 80 lle yng Nghyfnod 1 (yn cynnwys 15 lle cyfrwng Cymraeg). Ymhellach mae'r cynigion yn cynnwys y potensial i gynyddu lleoedd gan 40 arall yng Nghyfnod 2 (yn cynnwys darpariaeth ysgol Ffydd). Daw hyn i rym mewn camau o fis Medi 2023 dros y 5 mlynedd nesaf.

Mae'r Cyngor yn bwriadu ailfodelu amgylcheddau dysgu presennol i greu lleoedd ystafell ddosbarth a chyfleusterau cysylltiedig i letya a darparu adnoddau priodol ar gyfer y darpariaethau a gynigir ar gyfer ADY a ASD. Yn ychwanegol, ac wrth ochr hyn, bydd y Cyngor yn gweithio gyda'r ysgolion i ddatblygu cynllun hirdymor i gefnogi twf a datblygiad cyson.

Felly caiff y cynnig ei gyflwyno mewn 2 gyfnod:

**Cyfnod 1**
- Cydnabod y grŵp pontio a sefydlwyd yng Nghymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr – Cyfnod Uwchradd fel Canolfan Adnoddau gyda 6 lle o fis Medi 2023
- Creu Canolfan Adnoddau ASD gyda 6-8 lle yn Ysgol Gyfun Tredegar o fis Medi 2023
- Creu Canolfan Adnoddau ASD/ADY gyda 10 lle yn Ysgol Gynradd Sofrydd o fis Medi 2024/25
- Creu Canolfan Adnoddau ASD/ADY gyda 15 lle yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg o fis Medi 2024

**Cyfnod 2**
Datblygu cynllun tymor canolig i sicrhau capasiti ychwanegol i hwyluso twf a datblygiad cyson mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Bydd hyn yn cynnwys darpariaeth yn yr ysgolion dilynol rhwng 2025 a 2029:
- Creu Canolfan Adnoddau ASD/ADY yn Ysgol Sefydliadol Brynmawr ar gyfer 10 disgybl
- Creu Canolfan Adnoddau ASD/ADY yn Ysgol Gynradd Cwm ar gyfer 10 disgybl
- Creu, os oes angen, Canolfan Adnoddau ASD/ADY mewn ysgol gynradd seiliedig ar Ffydd (tebyg i ysgolion yr Eglwys Gatholig/Eglwys yng Nghymru (heb ei benderfynu eto) ar gyfer 10 disgybl
- Creu Canolfan Adnoddau ASD/ADY yng Nghymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri – Campws Cynradd Heol Roseheyworth ar gyfer 10 disgybl


Byddai'r cynnig yn cefnogi diben y Gyfarwyddiaeth Addysg i gyflawni:

***'Gwell Ysgolion, Gwell Dinasyddion a Gwell Cymunedau"***

Mae’r cynnig yn gydnaws gydag amcanion buddsoddi Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Blaenau Gwent sef:

- **Amcan Buddsoddi 1:** codi safonau a chyflawniad yn unol gyda thargedau lleol yn y Cyfnod Sylfaen, CA2, CA3 a CA4, a sicrhau gwell pontio i ddysgu ôl-16
- **Amcan Buddsodd 2:** creu model cynaliadwy ar gyfer y stad ysgolion 21ain Ganrif gan ystyried buddsoddiad cyfalaf a hefyd refeniw, ynghyd â chyflwr ac addasrwydd adeiladau
- **Amcan Buddsoddi 3:** sefydlu rheolaeth a darpariaeth effeithiol ar leoedd ysgol, drwy gael yr ysgolion cywir ar y maint cywir yn y lleoedd cywir
- **Amcan Buddsoddi 4:** gweithredu Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (gynt y rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif) yn unol â pholisi trafnidiaeth ysgolion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol, gan sicrhau synergedd rhwng cynnydd, datblygu a gweithredu
- **Amcan Buddsoddi 5:** diwallu anghenion dysgwyr sy’n agored i niwed a/neu sydd ag ADY

**Rhesymeg a Gwybodaeth Gefndir - Pam fod angen newid**





**Polisïau ac Egwyddorion ADY**

Daeth y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg i rym yn 2018 a chafodd Cod Ymarfer ADY ei weithredu ers 2021. Mae’r ffocws wedi newid ar sut y cofnodir data mewn awdurdodau lleol ac ysgolion. Mae’r ffocws yn awr ar ysgolion yn diwallu anghenion disgyblion dan ddarpariaeth gyffredinol a darpariaeth wedi’i thargedu drwy addysgu a dysgu ansawdd uchel.

Mae’r Cyngor wedi adolygu pob darpariaeth ar gyfer disgyblion gyda ADY ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae’r adolygiad hwn wedi galluogi’r Awdurdod Lleol i barhau i ddiwallu anghenion pob disgybl yn well. Yn ychwanegol, mae gweithgor o randdeiliaid allweddol gyda ffocws ADY yn cynnwys penaethiaid ysgolion o bob rhan o Flaenau Gwent yn weithredol. Y disgwyliad yw y bydd y gweithgor hefyd yn llywio cynllunio ar gyfer y dyfodol i gefnogi pob disgybl sydd ag angen dysgu ychwanegol, yn cynnwys lleoliadau cyfrwng Cymraeg.

**Safonau darpariaeth**

Os aiff y cynnig hwn yn ei flaen, bydd yn gwella addasrwydd yr amgylchedd dysgu ar gyfer disgyblion gyda ADY. Bydd hefyd yn rhoi mynediad i ddarpariaeth leol mewn lleoliadau prif ffrwd ar gyfer disgyblion ADY. Bydd hyn yn helpu gydag anghenion unigol disgyblion tebyg i faterion iechyd, diogelwch a llesiant a ddynodwyd yn y cais am leoedd mewn Canolfannau Adnoddau.

Bydd lleoedd ar gael yn lleol ar gyfer disgyblion sy’n byw ym Mlaenau Gwent, gan wella deilliannau dysgwyr a chynhwysiant ar lefel y Fwrdeistref Sirol. Gall y cynnig hefyd ddarparu lleoedd ym Mlaenau Gwent ar gyfer disgyblion o awdurdodau lleol eraill pe byddai’r angen yn codi ac os oes lleoedd ar gael.

**Yr angen am leoedd ychwanegol a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion**
Dengys y data a gasglwyd isod fod angen darpariaeth ASD/ADY yn ein hysgolion prif ffrwd i gefnogi'r cynnig hwn. Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth yn llawn yn ein canolfannau adnoddau ADY ac ni fydd unrhyw dwf i gefnogi ein dysgwyr os na aiff y cynnig hwn yn ei flaen. Mae gan Flaenau Gwent eisoes drefniadau gweithio rhanbarthol trawsffiniol ar gyfer lleoedd mewn darpariaeth ADY.

Mae'r holl ganolfannau adnoddau dysgu ar gyfer ASD a hefyd ADY wedi eu seilio mewn lleoliadau prif ffrwd cynradd ac uwchradd ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae'r lleoliadau hyn yn darparu ar gyfer disgyblion 3-16 oed (dim darpariaeth ASD meithrin). Ar wahân i Ysgol Arbennig Pen y Cwm, nid oes gan Flaenau Gwent unrhyw leoliadau ôl 16 yn ei adeiladau ysgolion uwchradd, byddai unrhyw disgybl dros 16 oed yn symud i gyfleoedd ôl 16 a allai gynnwys prentisiaethau Coleg Gwent, dysgu seiliedig ar waith neu gyflogaeth.

Caiff y darpariaethau presennol eu dangos yn **Ffigur 1 a 2,** mae'r wybodaeth hon ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23 fel ar 14 Rhagfyr 2022.

| **Ffigur 1 -<br>Ysgolion Cynradd cyfredol** | **Math darpariaeth** | **Lleoedd ar gael** | **Lleoedd a lanwyd** | **Lleoedd ar gael** |
|---|---|---|---|---|
| Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri Campws Cynradd Six Bells | CA ADY | 9 | 7 | 2 |
| Ysgol Gynradd Coed y Garn CA2 | CA ADY | 12 | 12 | 0 |
| Ysgol Gynradd Glanhywi | ASD | 12 | 14 | -2 |
| Ysgol Gynradd Trehelyg | CA ADY | 16 | 15 | 1 |
| Ysgol Gynradd Ystruth | ASD | 12 | 14 | -2 |
| | **Cyfanswm lleoedd** | **61** | **62** | **-1** |

| **Ffigur 2 -<br>Ysgolion Uwchradd cyfredol** | **Math darpariaeth** | **Lleoedd ar gael** | **Lleoedd a lanwyd** | **Lleoedd ar gael** |
|---|---|---|---|---|
| Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri – Cyfnod Uwchradd | CA ADY | 42 | 41 | 1 |
| Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr – Cyfnod Uwchradd | ASD | 18 | 21 | -3 |
| Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr – Cyfnod uwchradd | Grŵp Pontio | | 6 | -6 |
| | **Cyfanswm lleoedd** | **60** | **68** | **-8** |

Dengys y tablau uchod fod capasiti yn gyfyngedig yn y Fwrdeistref Sirol i ddarparu ar gyfer galw yn y canolfannau adnoddau. Cynhaliodd y Cyngor ymgynghoriad ADY yn 2015 a arweiniodd at ailddynodi canolfan adnoddau anghenion cymhleth cynradd i ddarpariaeth ASD ac agor darpariaeth newydd yng Nghymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr. Mae **Atodiad 2** (lleoliad, nifer disgyblion ac amcanestyniadau) ac **Atodiad 3** (arolwg cyflwr ysgolion a chyfleusterau) yn rhoi trosolwg o'r holl ysgolion o fewn y Fwrdeistref Sirol yr effeithir arnynt yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol. Mae'r wybodaeth hon yn rhoi manylion y cyfleusterau sydd ar gael ym mhob ysgol a'r niferoedd ar y gofrestr. Bu buddsoddiad sylweddol yn y stad ysgolion o'n rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy, Grant Cynhaliaeth Cyfalaf Llywodraeth Cymru a'r grant ADY i wella darpariaeth ar gyfer ein disgyblion.

Bu'r buddsoddiad diweddaraf yn:
- Ysgol Arbennig Pen y Cwm i wella eu hystafelloedd arbenigol ac amgylchedd dysgu
- Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon – ailwampio campws uwchradd
- Ysgol Gymraeg Bro Helyg, creu ystafell synhwyraidd a gofod maethu.

**Canolfannau Adnoddau Dysgu**
Mae data yn **Ffigur 3** (Cynradd) a **Ffigur 4** (Uwchradd) yn awgrymu y bu cynnydd yn y galw o 2017/18 mewn ysgolion cynradd o 48 i 64 lle (cynnydd o 25%), ac wedi codi gan 2 lle yn y sector uwchradd o 60 i 62 (4%). Fodd bynnag, gan fod niferoedd y sector cynradd wedi tyfu'n sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf mae angen mawr i greu gofodau ychwanegol mewn ysgolion cynradd a hefyd ysgolion uwchradd i ddarparu ar gyfer y galw.

**Ffigur 3 – Ffigurau 5 mlynedd diwethaf canolfannau adnoddau Cynradd**

| | Data Canolfannau Adnoddau am y 5 mlynedd diwethaf | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cynradd** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2021/22** |
| Capasiti Adnoddau | dim yn hysbys | 61 | 61 | 65 | 65 |
| Lleoedd a gymerwyd | dim yn hysbys | 48 | 45 | 65 | 64 |
| Nifer dros gapasiti | dim yn hysbys | -13 | -16 | 0 | -1 |

**Ffigur 4 – Ffigurau 5 mlynedd diwethaf canolfannau adnoddau Uwchradd**

| | Data 5 Canolfannau Adnoddau am y 5 mlynedd diwethaf | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uwchradd** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2021/22** |
| Capasiti Adnoddau | dim yn hysbys | 60 | 60 | 62 | 62 |
| Lleoedd a gymerwyd | dim yn hysbys | 60 | 60 | 62 | 62 |
| Nifer dros gapasiti | dim yn hysbys | 0 | 0 | 0 | 0 |

Bu cynnydd sylweddol yn nifer disgyblion a'r galw am leoedd mewn Canolfannau Adnoddau dros y pedair blynedd ddiwethaf, gan arwain ar achlysuron at fwy o alw nag o leoedd ar gael, ynghyd â rhestr aros, oedd â 6 disgybl arni ym mis Mawrth 2023 yn disgwyl lleoliad. Felly mae'r Awdurdod Lleol yn anelu i gynyddu'r capasiti (yn nhermau nifer y lleoedd) mewn Canolfannau Adnoddau fel sy'n dilyn:

- Cyfnod 1 – Cynradd o 61 i 92 lle (yn cynnwys 15 lle cyfrwng Cymraeg) ac Uwchradd o 62 lle o 76 lle; a
- Cyfnod 2 – efallai Cynradd o 92 i 122 lle (yn cynnwys 10 seiliedig ar Ffydd) ac Uwchradd o 76 i 86 lle

Mae'r Awdurdod Lleol yn amcanestyn tueddiad cynyddol parhaus yn nhermau galw/nifer disgyblion yn y dyfodol. Os yw'r amcanestyniad galw am leoedd mewn Canolfannau Adnoddau yn parhau bydd yn rhoi pwysau ar yr Awdurdod Lleol i leoli disgyblion tu fas i'r sir pe na byddem yn medru sicrhau lleoedd ychwanegol yn lleol. Mae'r Cyngor yn ceisio mynd i'r afael â'r problemau uchod drwy gynyddu capasiti Canolfannau Adnoddau lleol mewn ysgol brif ffrwd a champws uwchradd Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon i hwyluso'r galw cynyddol am leoedd a sicrhau twf tymor canol.

**Pandemig Covid a thema sy'n dod i'r amlwg yn dilyn Covid**
Effeithiodd Pandemig Covid yn 2020 ar bopeth ym mhob rhan o'r byd. Mae hyn yn cynnwys pob gwasanaeth a ddarperir gan y Cyngor. Newidiodd arferion gwaith gyda chyflwyno cysylltu digidol

gyda rhieni, ac fel canlyniad bu cynnydd yn nifer y plant yn eu blynyddoedd cynnar sydd angen cymorth ychwanegol drwy'r gwasanaethau iechyd (diagnoses) a chymorth addysg lle maent wedi colli y rhyngweithiad cymdeithasol hwnnw gyda phlant eraill. Nid yw maint llawn yr oedi mewn datblygiad fel Covid a ffactorau cysylltiedig yn hysbys ar hyn o bryd ond disgwylir y bydd yn cynyddu angen disgyblion Blaenau Gwent yn y dyfodol.

**Y galw am leoedd**

O fewn Blaenau Gwent ac yn seiliedig ar ddata CYBLD, mae nifer disgyblion gydag Anghenion Ychwanegol wedi cynyddu. Ar hyn o bryd mae Angen Dysgu Ychwanegol/Statws AAA gan 14% (1,389) o ddisgyblion oedran ysgol statudol (9,389) yn y Fwrdeistref Sirol a 250 o blant oedran ysgol statudol gyda Datganiad AAA neu Gynllun Datblygu Unigol ym Mlaenau Gwent.

Mewn ymgais i ddatblygu model gyda'r nod o ragweld nifer y lleoedd fydd eu hangen, mae'r Cyngor wedi defnyddio data hanesyddol a thueddiadau cysylltiedig ac wedi ystyried nifer y ceisiadau a gytunwyd gan y Panel ADY. Rydym hefyd wedi ystyried y nifer sy'n gadael canolfannau adnoddau a'r ysgol arbennig bob blwyddyn. Bu modd i ni wedyn sefydlu'r cynnydd net ar sail flynyddol. Yn seiliedig ar y nifer cyfredol ar y gofrestr, a'r wybodaeth uchod, rydym wedi rhagweld galw y dyfodol.

Felly, mae'r galw wedi cynyddu ac mae'n debygol o barhau i wneud hynny yn unol â mewnfudo, cyfraddau goroesi cynyddol ymhlith plant gydag anghenon cymhleth ac yn olaf geisiadau am leoliad gan Awdurdodau Lleol oherwydd prinder lleoedd. Mae'r Cyngor yn gwybod fod cynnydd yn y twf a'r galw am leoliadau addysg arbenigol ledled Cymru. Mae awdurdodau cyfagos wedi cynnal ymgynghoriadau ar dwf capasiti ysgolion arbennig a chanolfannau adnoddau i hwyluso galw, neu'n ystyried gwneud hynny, oherwydd prinder lleoedd. Os nad yw'r Cyngor yn sicrhau lleoedd digonol i'w ddisgyblion, mae'n annhebygol y bydd gan Awdurdodau Lleol cyfagos y capasiti i ddarparu ar eu cyfer, gan arwain at bosibilrwydd costau lleoliadau allan o'r Sir uchel iawn, cynnydd mewn amser teithio a llai o hygyrchedd i ddewisiadau addysg lleol ar gyfer y disgyblion mwyaf bregus gyda'r lefel uchaf o angen.

**Ysgolion arbenigol**

Dylid hefyd nodi i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad yn 2020 ar gynyddu capasiti Ysgol Arbennig Pen y Cwm i ddarparu ar gyfer y galw am leoliadau mewn ysgol arbennig. Cymeradwywyd hyn yn 2021 i'w weithredu ym mis Medi 2021. Mae Rhan 1 yr ymgynghoriad yn agos at gael ei gwblhau gyda'r ddarpariaeth arbennig a gynigir yn cael ei hail-sefydlu. Mae Rhan 2 yn dal i gael ei ddatblygu.

Hefyd, sefydlwyd Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon ym mis Ionawr 2017. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar dri safle cynradd (Canolfan Thomas Richard), Uwchradd (Pontygof) a Thŷ Stiwardiaid gyda 64 lle, 40 ohonynt yn rhai troi o amgylch a 24 lle ar gofrestr llawn-amser.

**Blynyddoedd Cynnar a Darpariaeth Feithrin**

Mae'r data ategol isod yn dangos fod galw ar y cam cynnar hwn ym mywyd plentyn. Allan o gohort Medi 2022 o 129 o blant mewn lleoliad blynyddoedd cynnar, mae 49 yn trosglwyddo i ddarpariaeth feithrin a gwyddom eu bod angen cymorth. Dyfarnwyd cyllid i 24 o blant eraill gyda chais wedi ei sgrinio am gymorth ychwanegol. Gall y ffigurau hyn newid yn wythnosol gan fod 3 derbyniad drwy gydol y flwyddyn.

Rhagwelir bod angen datblygu datrysiad wedi ei dargedu i greu datrysiad er mwyn i blant yn y Blynyddoedd Cynnar gael eu cefnogi yn yr amgylchedd prif ffrwd.

**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**
Byddai'r cynnig i ymestyn capasiti a gwneud newidiadau ffisegol i adeiladau presennol tra hefyd yn datblygu cynllun twf a chynaliadwyedd hirdymor hefyd yn creu mynediad cyfartal i ddarpariaeth ADY ansawdd uchel mewn amgylchedd dysgu 21ain Ganrif ar gyfer disgyblion.

**Amcanestyniadau disgyblion yn seiliedig ar niferoedd cyfredol:**
**Ffigur 5 – Amcanestyniadau disgyblion ar gyfer canolfannau adnoddau Cynradd**

| | Data Llinell Sylfaen | **Amcanestyniadau 5 mlynedd** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynradd** | **22/23** | **23/24** | **24/25** | **25/26** | **26/27** | **27/28** |
| Lleoedd ar gael | 61 | 61 | 61 | 61 | 61 | 61 |
| Lleoedd a gymerwyd | 62 | 60 | 63 | 64 | 65 | 67 |
| Ymadawyr | 1 | 10 | 12 | 11 | 11 | 11 |
| Ymunwyr y flwyddyn nesaf | 13 | 13 | 13 | 13 | 13 | 13 |
| Cyfanswm ar ddechrau'r flwyddyn nesaf | 60 | 63 | 64 | 65 | 67 | 69 |
| Nifer dros gapasiti - galw | -1 | 2. | 3 | 4 | 6 | 8 |

**Ffigur 6 – Amcanestyniadau disgyblion ar gyfer canolfannau adnoddau Uwchradd**
**Amcanestyniadau disgyblion ar gyfer canolfannau adnoddau Uwchradd**

| | Data Llinell Sylfaen | **Amcanestyniadau 5 mlynedd** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uwchradd** | **22/23** | **23/24** | **24/25** | **25/26** | **26/27** | **27/28** |
| Lleoedd ar gael | 62 | 62 | 62 | 62 | 62 | 62 |
| Lleoedd a gymerwyd | 66 | 77 | 74 | 69 | 60 | 61 |
| Ymadawyr | 6 | 13 | 17 | 20 | 12 | 17 |
| Ymunwyr y flwyddyn nesaf | 17 | 10 | 12 | 11 | 13 | 13 |
| Cyfanswm ar ddechrau'r flwyddyn nesaf | 77 | 74 | 69 | 60 | 61 | 57 |
| Nifer dros gapasiti - galw | 15 | 13 | 9 | -3 | -2 | -6 |
| Lleoedd ar gael | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 | 6 |
| Lleoedd a gymerwyd | 9 | 6 | 1 | -8 | -7 | -11 |

*Nodyn: Nid yw hyn yn rhoi ystyriaeth i drosglwyddiadau posibl o leoliadau allan o Sir neu Ysgolion Arbennig y Cyngor.*

**Darpariaeth cyfrwng Cymraeg**:
Nid oes gan Flaenau Gwent Ganolfan Adnoddau Cynradd cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ar hyn o bryd. Bydd hyn yn ffurfio rhan o'r cynnig. Mae pob disgybl o oedran ysgol uwchradd sydd eisiau addysg cyfrwng Cymraeg yn derbyn eu haddysg yn Nhorfaen yng Nghymuned Ddysgu 3-19 Ysgol Gymraeg Gwynllyw.

Dan y cynnig hwn cafodd ystafell ei dynodi o fewn yr ysgol ar gyfer Canolfan Adnoddau a allai ddarparu ar gyfer hyd at 15 disgybl. Dywedodd Ysgol Gymraeg Bro Helyg fod 8 disgybl sydd â nodweddion ASD/ADHD yn yr ysgol. Hyd yma, nid yw'r cyfan o'r disgyblion hyn wedi cael diagnosis ffurfiol. Mae pob un heblaw 2 yn derbyn cyswllt gyda Seicoleg Addysgol gydag atgyfeiriadau wedi eu gwneud. Caiff darpariaeth feithrin yn yr ysgol ei chynnig ar sail lawn-amser. Felly mae anghenion disgyblion yn tueddu i gael eu dynodi yn gymharol gynnar. Mae nifer o ddisgyblion a fyddai yn manteisio o addysgu dosbarth bach yng Nghyfnod Allweddol 2 ar hyn o bryd.

Sylweddolir y byddai darpariaeth Canolfan Adnoddau nid yn unig yn darparu cymorth pwrpasol ar gyfer y disgyblion y dynodwyd eu bod angen y lefel gyson hon o ymyriad a chymorth, ond byddai hefyd yn rhyddhau amser athrawon i ganolbwyntio ar ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol e.e. disgyblion gydag Anhawster Dysgu Penodol. Byddai unrhyw Ganolfan Adnoddau mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg Blaenau Gwent yn cymryd plant o ysgolion eraill ym Mlaenau Gwent. Fodd bynnag, dim ond ar gyfer plant a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg fyddai'r Ganolfan Adnoddau cyfrwng Cymraeg.

Mae Ysgol Gymraeg Bro Helyg hefyd wedi sefydlu dosbarth trochi i gefnogi hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg a fyddai'n cefnogi dewis rhieni ar gyfer y disgyblon hynny sydd hefyd eisiau symud i addysg Gymraeg.

**Yr opsiynau a ystyriwyd**

Cynhaliwyd gwerthusiad manwl o opsiynau i ymchwilio ffyrdd y gallai'r gofyniad am ddarpariaeth ychwanegol ar gyfer ADY ar ffurf Canolfannau Adnoddau ASD ac ADY gael eu trin ar gyfer addysg cyfrwng Saesneg a hefyd addysg cyfrwng Cymraeg ynghyd ag angen cynradd ac uwchradd. Cafodd ffactorau tebyg i leoliad, safle a math darpariaeth eu hystyried.

Cafodd y rhestr hir o opsiynau a fanylir o fewn **Tabl 2** eu hailwerthuso yn ddiweddarach a lluniwyd rhestr fer, fel y gellid ymchwilio'r buddion, risgiau, amserlenni, costau ac ati yn llawer mwy manwl.

Y ffactorau allweddol yw sicrhau lleoedd yn y tymor byr i'r tymor canol, y gellir eu cyflenwi yn ystod y pum mlynedd nesaf.

**Tabl 2 – Rhestr hir o opsiynau**

| Opsiwn | Disgrifiad: | Casgliad |
|---|---|---|
| **1** | Busnes fel arfer – cadw'r status quo | Mae hyn yn gymharydd llinell sylfaen safonol y mae'n rhaid ei ystyried, ond nid yn opsiwn gan nad yw'n trin yr angen a ddynodwyd. **Gwrthodiad** |
| **2** | Meithrin capasiti ar unwaith mewn llawer o leoliadau i gyd ar unwaith mewn lleoliadau prif ffrwd cynradd ac uwchradd yn y Fwrdeistref Sirol a Chymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon – Cyfnod Uwchradd. | Mae'n haeddu cael ei ystyried ymhellach, ond ni fyddai cyfyngiadau ariannol yn caniatáu gweithrediad effeithiol ac amserol. **Posibl** |
| **3** | Meithrin capasiti (yn cynnwys lleoedd cyfrwng Cymraeg a darpariaeth seiliedig ar ffydd) dros y 5 mlynedd nesaf i gynyddu lleoliadau prif ffrwd cynradd ac uwchradd yn y Fwrdeistref Sirol ac yn lleoliad Uwchradd Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon. | Y ffordd ymlaen a ffafrir. Byddai hyn yn trin angen Uwchradd a galw cyfrwng Cymraeg ar unwaith a chynllunio twf tymor canol a hirdymor. **Posibl** |
| **4** | Anfon disgyblion sydd angen cymorth i ganolfannau adnoddau tu fas i'r sir. | Nid oes digon o gapasiti ar gael, ac ni fyddai hyn yn cefnogi'r weledigaeth ar gyfer addysg mewn sicrhau darpariaeth leol, hygyrch ac ansawdd uchel. Hefyd drud iawn. **Gwrthodwyd** |
| **5** | Mynd i'r afael â phroblemau capasiti mewn ysgolion uwchradd yn unig | Haeddu ymchwil pellach yn unol ag ymchwiliad manwl o argaeledd mewn adeiladau ysgolion uwchradd a goblygiadau cost yn gysylltiedig gyda chyflenwi, model a gweledigaeth ADY. **Posibl** |

| | | |
|---|---|---|
| **6** | Mynd i'r afael â phroblemau capasiti mewn ysgolion cynradd yn unig. | Mae galw ar unwaith yn y sector uwchradd am leoedd ar hyn o bryd.<br>**Gwrthodwyd** |

**Gwrthodwyd Opsiynau 1, 4 a 6** gan na fyddent o bosibl yn:
- Trin yr angen ar unwaith a thymor canol
- Arwain at gostau uwch ar gyfer disgyblion ADY pe byddai'n rhaid eu haddysgu tu fas i'r sir
- Tarfu ar y system addysg bresennol
- Cael effaith negyddol ar ddarpariaeth a mynediad i gyfleusterau a gwasanaethau arbenigol

Roedd y rhestr fer yn cynnwys:
- **Opsiwn 1** (busnes fel arfer) – Cynnal y status quo
- **Opsiwn 2** Meithrin capasiti ar unwaith mewn llawer o leoliadau i gyd ar unwaith yn y prif ffrwd cynradd ac uwchradd
- **Opsiwn 3** Meithrin capasiti (yn cynnwys lleoedd cyfrwng Cymraeg a lleoedd seiliedig ar ffydd) dros y pum mlynedd nesaf i gynyddu lleoliadau yn y prif ffrwd cynradd a hefyd uwchradd
- **Opsiwn 5** Trin problemau capasiti mewn ysgolion uwchradd yn unig

**Yr opsiwn a ffafrir**
**Opsiwn 3** – Meithrin capasiti (yn cynnwys lleoedd Cymraeg a darpariaeth seiliedig ar Ffydd) dros y 5 mlynedd nesaf a chynyddu darpariaeth mewn lleoliadau cynradd a hefyd uwchradd, yw'r opsiwn a ffafrir gan y bydd hyn yn trin yr angen ar unwaith am ddarpariaeth uwchradd a'r galw cyfrwng Cymraeg a chynlluniau ar gyfer twf a chynaliadwyedd tymor canol a hirdymor. Ni ystyriwyd mai Opsiwn 2 ac Opsiwn 5 oedd yr opsiwn a ffafrir oherwydd:
- Cyfyngiadau ariannol
- Methu trin problemau cynaliadwyedd hirdymor

**Risgiau a Lliniaru**
Mae gan Gyngor Blaenau Gwent hanes o lwyddiant mewn rheoli prosiectau adeiladu ysgolion a threfniadaeth ysgolion – yn cynnwys y gofyniad i gynyddu capasiti ysgolion. Gall y risgiau dilynol gael eu rheoli a'u lliniaru i raddau helaeth fel sy'n dilyn:

**Tabl 3 – Risgiau a Lliniaru**

| Risg | Lliniaru |
|---|---|
| **Os na symudir ymlaen gyda'r cynnig, mae risg lleoliad a hefyd risg ariannol yn nhermau sicrhau darpariaeth addas tu allan i'r sir ar gyfer dysgwyr.** | Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr allweddol i ddarparu datrysiad lleol sy'n effeithiol o ran cost ac sy'n gostwng nifer y disgyblion sy'n teithio i a chael mynediad i leoliadau tu fas i'r sir sydd eisoes yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod Lleol hanes o lwyddiant o weithio i sicrhau lleoliadau priodol ar gyfer dysgwyr ym mhob rhan o'r rhanbarth. |
| **Nid yw'r broses ymgynghori yn trin safbwynt a dealltwriaeth rhanddeiliaid o'r cynnig. Felly, ni chaiff y cynnig ei chefnogi ac nid yw'n symud ymlaen.** | Mae Cyfarwyddiaeth Addysg Cyngor Blaenau Gwent yn brofiadol mewn ymgynghori ar gynigion ac wedi cynnal hynny yn ddiweddar, gan gydymffurfio'n llawn gyda Chod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru (Fersiwn 2, 2018). |

| | |
|---|---|
| **Caiff y cynnig i ehangu darpariaeth bresennol ei gyflwyno'n hwyr** | Mae cynlluniau cyflenwi yn eu lle a gellir eu hwyluso yn gyflym yn unol â chanlyniad y prosesau statudol sy'n gysylltiedig o fewn y cynnig hwn h.y. ymgynghoriad a hysbysiad statudol. |
| **Capasiti annigonol ar gyfer galw yn y dyfodol.** | Diben y cynnig yw meithrin capasiti ychwanegol i ateb galw nas rhagwelwyd yn flaenorol ac i alluogi'r Cyngor i fonitro ac ymchwilio opsiynau hirdymor i sicrhau twf cynaliadwy. |
| **Mae'r amcangyfrif o gostau buddsoddiad cyfalaf yn fwy na'r gyllideb.** | Mae'r safleoedd sy'n gysylltiedig gyda'r cynnig yn gyfarwydd iawn i dîm prosiect Cymunedau Dysgu Cynaliadwy Blaenau Gwent, ac felly mae'r amcangyfrifon cost yn seiliedig ar wybodaeth a ddealltwriaeth go iawn, gyda swm wrth gefn wedi'i gynnwys i drin unrhyw broblemau anhysbys posibl. Caiff y gyllideb ei monitro'n rheolaidd i lywio cynlluniau y dyfodol. Defnyddir cyllid cyfalaf drwy'r Grant ADY a'r Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy dros gyfnod 3-5 mlynedd i gyflenwi'r cynnig. |

**Manteision y Cynnig**
Byddai'r cynnig hwn yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl – yn arbennig y rhai sydd â'r angen mwyaf. Mae'r cynnig yn hwyluso cynhwysiant a dull gweithredu cynhwysol o fewn Addysg, gan sicrhau mynediad i gyfleusterau addysg arbenigol ansawdd uchel a chymorth ar gyfer disgyblion gyda ADY o fewn y Fwrdeistref Sirol. Aiff hefyd beth o'r ffordd i drin y rhwystrau y mae rhieni yn eu gweld wrth gael mynediad i addysg arbenigol a gostwng ôl-troed carbon y Cyngor gyda dibenion teithio ar gyfer addysg.

Pe na fyddai dim yn newid, ni all y Cyngor ddiwallu anghenion pob dysgwr yn neilltuol rai gyda ASD ac ADY o fewn Blaenau Gwent. Felly byddai angen iddynt gael eu lleoli tu fas i'r sir ar gost sylweddol, gyda dysgwyr yn gorfod mynd ar deithiau ysgol hirach gan effeithio ar deuluoedd a chymdeithasu ar gyfer llawer o ddisgyblion.

**Y buddion a'r manteision a ddisgwylir (o gymharu gyda'r status quo):**

- Bydd disgyblion yn cael mynediad i ddarpariaeth addas a phriodol o fewn eu bro;
- Bydd disgyblion yn cael mynediad i ddarpariaeth addas a phriodol o ran nodweddion gwarchodedig e.e. ffydd neu iaith;
- Creu datrysiad hirdymor fydd yn trin y galw cynyddol am ddarpariaeth ADY;
- Parhad a chynaliadwyedd yn nhermau addysg leol ar gyfer disgyblion gyda ADY;
- Bydd y strwythur yn meithrin hyder a hunan-dyb mewn disgyblion, rhieni a staff;
- Opsiwn leol i ddisgyblion yn symud o ysgol brif ffrwd i ganolfannau adnoddau;
- Gostwng costau lleoliadau tu allan i'r sir ar gyfer disgyblion, tra'n sicrhau buddsoddiad lleol o fewn stad ysgolion Blaenau Gwent;
- Gwella mynediad i a chyfleusterau ar gyfer disgyblion sy'n diwallu'r meini prawf ar gyfer darpariaeth ADY ar draws y fwrdeistref sirol;
- Cynyddu capasiti a chynaliadwyedd lleoliad; a
- Gostwng amser teithio ac ôl-troed carbon ar gyfer disgyblion.

**Anfanteision:**

- Pryderon posibl gan rieni yng nghyswllt lleoliad mewn Canolfannau Adnoddau a
- Gall nifer y disgyblion mewn ysgolion a ddynodwyd fel canolfannau posibl dyfu os oes unrhyw fewnfudo i'r ardal.

**Model llywodraethiant**
O'r ysgolion a ddynodwyd o fewn y cynnig (yn cynnwys Ysgol Sefydliadol Brynmawr), bydd angen i'r corff llywodraethu gytuno i gynnal canolfan ASD/ADY a bod yn gyfrifol am redeg y ganolfan adnoddau o ddydd i ddydd. Byddai angen i'r Corff Llywodraethu neu'r esgobaeth, fel sy'n berthnasol i gytuno i newid nodweddion yr ysgol i gytuno ar leoliad darpariaeth a dod yn gyfrifol am drefniadau'r awdurdod lleol drwy'r panel ADY ar gyfer plant a phobl ifanc i gael eu lleoli.

**Trefniadau teithio dysgwyr**
Mae Polisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl-16 2023/24 y Cyngor yn dweud y caiff cludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol ei ddarparu fel sy'n dilyn.

Bydd y Cyngor yn darparu cymorth cludiant ar gyfer disgyblion gyda ADY:

- os bernir fod trefniadau teithio presennol yn anaddas yn unol ag anghenion disgyblion, caiff trefniadau eraill eu penderfynu gan y Panel Cynhwysiant ADY;
- os nad yw'n briodol i'r disgyblion gerdded i'r ysgol oherwydd natur eu hangen dysgu ychwanegol a/neu anabledd; a/neu,
- os yw'r Panel ADY yn penderfynu nad oes darpariaeth addysg briodol o fewn y Fwrdeistref Sirol sy'n addas i ateb angen disgyblion.

Caiff y trefniadau uchod eu hadolygu yn unol gyda newidiadau i amgylchiadau'n ymwneud â gofynion cludiant disgyblion.

Bydd disgyblion sydd angen cludiant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) sy'n byw:

- dros 1.5 milltir (ar gyfer y rhai dan 8 oed); a/neu
- dros 2 filltir (ar gyfer rhai rhwng 8-16 oed)

o'u darpariaeth ADY addas agosaf yn awtomatig yn gymwys am gludiant am ddim rhwng y cartref a'r ysgol. Dylid nodi na ddarperir unrhyw gludiant lle mai dewis rhiant yw'r ysgol ac nid y ddarpariaeth a benderfynwyd gan y Panel ADY.

Mae'r Cyngor wedi sefydlu proses er mwyn asesu anghenion teithio plant a all fod angen cludiant ADY fel sy'n dilyn:

- Caiff pob cais at Banel ADY i ystyried newid lleoliad eu hystyried yn gyntaf gan y tîm Cludiant i benderfynu os ydynt yn gymwys am gludiant ar sail pellter
- Bydd Panel ADY y Cyngor wedyn yn ystyried y cais am newid lleoliad, ac os cytunir, yn penderfynu ar y lleoliad priodol ac yn dynodi os oes angen cludiant i gyrraedd y lleoliad a gytunwyd.

Lle cytunwyd ar gludiant, bydd y Swyddog Cludiant yn cysylltu â'r rhiant ac yn eu hysbysu am y trefniadau. mewn achosion lle gwrthodir ceisiadau am gludiant, bydd rhieni/gofalwyr yn derbyn hysbysiad gan y tîm ADY, gan hefyd yn nodi eu hawl i apelio.

Mae lleoliad yr ysgol gyfredol a'r seilwaith yn darparu ar gyfer mannau gollwng a chodi ar gyfer bysus a thacsis ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol, gyda digonedd o leoedd parcio ar gyfer staff a phartneriaid allweddol i ymweld.

## Adran 4: Canlyniad yr Ymgynghoriad a'r Camau Nesaf

**Adroddiad yr Ymgynghoriad:** Caiff adborth o'r ymgynghoriad ei gasglu, ei ddadansoddi a'i gyflwyno mewn Adroddiad Ymgynghoriad i Bwyllgor Gweithrediaeth y Cyngor ym **Mehefin 2023.** Bydd yr adroddiad ar gael ar wefan y Cyngor ddwy wythnos cyn y gwneir penderfyniad i gyhoeddi hysbysiad statudol. Medrir cael copïau caled o adroddiad yr ymgynghoriad ar gais o'r cyfeiriadau e-bost a fanylir uchod ar **dudalen 8.**

**Hysbysiad Statudol:** Pe byddai'r cynnig (neu'r cynnig gyda'r diwygiadau priodol) yn cael ei gymeradwyo gan y Cabinet, bydd y Cyngor wedyn yn cyhoeddi hysbysiad statudol ym **Mehefin 2023.** Caiff copi o'r hysbysiad statudol ei ddangos ar wefan y Cyngor ac unrhyw ysgol yr effeithir arni o fewn y Fwrdeistref Sirol. Bydd copïau caled o'r hysbysiad statudol ar gael ar gais. Bydd y cyfnod hysbysiad statudol yn rhedeg am 28 diwrnod. Yn ystod y cyfnod hwn, gallwch wneud gwrthwynebiadau ffurfiol pe dymunech wneud hynny, fel yr esbonnir yn yr hysbysiad statudol. Caiff unrhyw faterion a godir gan rai â diddordeb wedyn eu crynhoi mewn adroddiad gwrthwynebiad a'i gyflwyno i'r Cabinet er mwyn gwneud penderfyniad terfynol.

**Penderfynu ar y Cynnig:** Bydd Cyngor Blaenau Gwent yn penderfynu ar y cynnig yn dilyn y cyfnod hysbysiad statudol ar ôl ystyried yr ymatebion i'r hysbysiad statudol. Gall hyn arwain at gymeradwyo, gwrthod neu gymeradwyo'r cynnig gyda diwygiadau.

**Hysbysiad o'r Penderfyniad:** Unwaith y gwnaed penderfyniad, anfonir copi o'r penderfyniad yn electronig at bawb sydd â diddordeb a'i gyhoeddi ar wefan Cyngor Blaenau Gwent o fewn 7 diwrnod o'r penderfyniad.

**Tabl 4 – Amserlen y Broses Statudol**

| Ebrill 2023 | Mai 2023 | Mehefin 2023 | Mehefin 2023 | Gorffennaf 2023 | Medi 2023 |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfnod Ymgynghori | | | | | |
| | | Adroddiad ymgynghori i'r Pwyllgor Gweithrediaeth | | | |
| | | | Hysbysiad Statudol | | |
| | | | | Adroddiad Gwrthwynebiadau | |
| | | | | Hysbysiad Penderfyniad | |
| | | | | | Gweithredu Medi 2023 ymlaen |

## Adran 5: Manylion yr Ysgolion yr Effeithir Arnynt



**Ysgolion yr effeithir yn uniongyrchol arnynt:**
Bydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar yr ysgolion dilynol:

- Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff, Ashvale, Dukestown, Tredegar, NP22 4AQ
- Ysgol Gynradd Gatholig yr Holl Seintiau, Heol-yr-Ysgol, Glynebwy, NP23 6QP
- Ysgol Gynradd Gatholig Santes Fair, Ysgol Gatholig, Brynmawr, NP23 4EF
- Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri, Heol Roseheyworth, Campws Roseheyworth, Heol Roseheyworth, Abertyleri, NP13 1SR
- Ysgol Sefydliadol Brynmawr, Clydach Dingle, Brynmawr, NP23 4XT
- Ysgol Gynradd Cwm, Stryd Canning, Cwm, Glynebwy, NP23 7RD
- Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr, Cyfnod Uwchradd, Rhodfa Calch, Glynebwy, NP23 6GL
- Ysgol Gynradd Sofrydd, Heol Sofrydd, Sofrydd NP11 5DW
- Ysgol Gyfun Tredegar, Lôn Stabl, Tredegar, NP22 4BH
- Ysgol Gymraeg Bro Helyg, Stad Ddiwydiannol Rising Sun, Blaenau, NP13 3DQ

**Ysgolion yr effeithir yn anuniongyrchol arnynt:**
Ysgolion sydd eisoes â Chanolfan Adnoddau ADY a/neu sydd wedi cysylltu drwy ysgol pob oed uchod.

- Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri
  - Campws Uwchradd, Stryd Alma, Abertyleri, NP13 1YL
  - Campws Cynradd Six Bells, Heol Six Bells, Six Bells, NP13 2NJ
- Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr, Cyfnod Cynradd, Lôn Strand Annealing, Glynebwy NP23 8XF
- Ysgol Gynradd Coed y Garn, Rhos Parrot, Blaenau NP13 3AH
- Ysgol Gynradd Glanhywi, Coach Bach, Tredegar, NP22 4RW
- Ysgol Gynradd Trehelyg, Stad Brynheulog, Glynebwy, NP23 6NJ
- Ysgol Gynradd Ystruth, Dwyrain Pentwyn, Blaenau, NP13 3XG

Mae'r wybodaeth isod yn cynnwys pob ysgol sy'n bwydo i ysgol uwchradd dan y cynnig hwn a chafodd ei dadansoddi i'r ardaloedd isod:

**Ardal Tredegar:**

- Ysgol Gynradd Bryn Bach, Heol Merthyr, Tredegar, NP22 3RX
- Ysgol Gynradd Deighton, Heol Stockton, Tredegar, NP22 3ES
- Ysgol Gynradd Georgetown, Heol Oakfield, Tredegar, NP22 4LP

**Ardal Ebwy Fawr:**

- Ysgol Gynradd Beaufort Hill, Heol Bangor, Beaufort, Glynebwy, NP23 5QG
- Ysgol Gynradd Glyncoed, Badminton Grove, Glynebwy, NP23 5UL
- Ysgol Gynradd Rhos y Fedwen, Heol Honeyfield, Rasa, Glynebwy, NP23 5TA

**Ardal Ebwy Fach:**

- Ysgol Gynradd Sant Illtud, Llanhiledd, Abertyleri, NP13 2JT
- Ysgol Gynradd Eglwys yng Nghymru, Santes Fair, Heol Intermediate, Brynmawr, NP23 4SF
- Ysgol Arbennig Blaen y Cwm, Heol Blaenafon, Brynmawr, NP23 4BR

**Datganiad am gapasiti dros ben**

Dengys capasiti ysgolion Blaenau Gwent ar gyfer mis Medi 2022 fod digon o le yn ein hysgolion prif ffrwd i gefnogi datblygu canolfan adnoddau ADY mewn lleoliadau Cynradd a hefyd Uwchradd.

- Mewn ysgolion cynradd yn gyffredinol mae 13% o leoedd gwag (5138 o leoedd, 5060 ar y gofrestr)
- Mewn ysgolion uwchradd mae 12% o leoedd gwag (3463 o leoedd, 3033 ar y gofrestr)

Mae ein lleoedd gwag cynradd ac uwchradd yr un canran is o safle Oren yn unol â setiau data Llywodraeth Leol (rhwng 10% - 24%).

Ni fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol ar Ysgol Arbennig Pen y Cwm.

## Adran 6: Ystyriaethau Eraill

**Cyllid**

**Costau Refeniw**

Wrth gynyddu darpariaeth mewn Canolfannau Adnoddau bydd goblygiad refeniw yn gysylltiedig gyda'r cynnig. Caiff pob ysgol ei chyllido yn unol â pholisi Cyllid Teg Cyngor Blaenau Gwent a bydd yn derbyn adnoddau ar yr un sail ag unrhyw ysgol arall o fewn Blaenau Gwent, yn seiliedig ar nifer disgyblion ac arwynebedd adeilad yr ysgol. Mae'n anodd cael amcangyfrif cywir o'r costau yn gysylltiedig o fewn y cynnydd capasiti, oherwydd yr amrywion dilynol:

- y gostyngiad mewn cyllid ar gyfer lleoliadau prif ffrwd fel canlyniad i leoliad disgyblion,
- lefel osgoi cost fel canlyniad i leoli disgyblion o fewn lleoliadau tu allan i'r sir o tu fewn i Blaenau Gwent, ac yn olaf
- lefel yr adenilliad a geir fel canlyniad i leoliad allan o'r sir o fewn canolfannau adnoddau presennol.

Ar hyn o bryd mae gan Blaenau Gwent 11 disgybl (2022/23) a gafodd eu haddysgu y tu allan i'r Awdurdod Lleol mewn lleoliadau annibynnol a 13 eraill o blant sy'n derbyn gofal a fyddai'n cael eu lleoli yn yr ysgol agosaf at yr awdurdod lleol y maent yn byw ynddo (gofal maeth/preswyl) ar gost o tua £600,000. Disgwylir y bydd y gyllideb ar gyfer 2023/24 yn £720,000.

Rhagwelir y bydd y costau refeniw yn gysylltiedig gyda Chyfnod 1 y prosiect tua £756,973 (dadansoddiad). Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar sylfaen prisiau 2023/24.
y flwyddyn

- 2023/24 £73,184
- 2024/25 £241,003
- 2025/26 £442,786

Ym mlynyddoedd 2023/24 a 2024/25 rhagwelir y caiff y costau uwch eu cyllido o grantiau gweithredu ADY a chronfa wrth gefn AAA. O 2025/26 rhagwelir y bydd y cynnig yn dechrau effeithio ar y gofyniad am leoliadau tu fas i'r sir gan felly ostwng y gwariant a chaniatáu clustnodi cyllid yn unol â hynny. Fodd bynnag, gall fod gofyniad am gyllid pwysau cost tymor bur/buddsoddi i arbed nes bod effaith ariannol gostwng lleoliadau allan o'r sir yn digwydd wrth i ddisgyblion adael y system. Caiff unrhyw gyllid pwysau cost/buddsoddi i gynilo ei gynnig fel rhan o'r broses gosod cyllideb arferol.

Os na chaiff y disgyblion hyn eu gosod mewn canolfan adnoddau leol, yna byddai angen eu gosod mewn lleoliadau tu fas i'r sir a fedrai weld y costau hyn yn cynyddu'n gronnus yn unol gyda'r amcanestyniad galw gan tua £1.3m erbyn blwyddyn ariannol 2025/26.

Caiff y costau refeniw yn gysylltiedig gyda Cyfnod 2 eu hystyried yn llawn unwaith y gweithredwyd Cam 1 ac y cafodd yr effaith ei asesu.

**Costau Cludiant**
Mae costau sy'n gysylltiedig gyda chludiant cartref i'r ysgol yn cynyddu. Mae rhagolwg costau cludiant 2022/23 yn gysylltiedig gyda:

- Lleoliadau tu allan i'r sir yn £247,352
- Canolfannau ADY yn gysylltiedig gyda darpariaeth ysgolion cynradd £286,008.74
- Canolfannau ADY yn gysylltiedig gyda darpariaeth ysgol uwchradd £226,652.30

Ar draws pob darpariaeth ADY a gynigir, gall y costau yn gysylltiedig gyda blwyddyn academaidd fod mor uchel â £654,508.65 (ac eithrio costau Ysgol Arbennig Pen y Cwm). Mae hyn yn dibynnu ar nifer y plant sydd angen cludiant. Caiff y costau hyn eu hadolygu'n rheolaidd a gallant newid yn unol â lleoliad disgybl. Pe gweithredid y cynnig hwn byddai'r Cyngor yn gweld gostyngiad cronnus yn gysylltiedig gyda lleoliadau tu allan i'r sir bob blwyddyn.

**Costau Cyfalaf**
Bydd y cynigion yn cynnwys ailfodelu rhannau yn yr ysgolion y dynodwyd y gallant gynnwys darpariaeth newydd sydd eisoes o fewn ôl-troed presennol yr ysgol. Mae goblygiadau ariannol cyfalaf yn gysylltiedig gyda'r cynnig hwn ar gyfer y Cyngor, sydd tua £570,000 dros gyfnod o 3-5 mlynedd.

- Cyfnod 1 £300,000
- Cyfnod 2 £270,000

Caiff hyn ei gyflawni drwy gyfraniadau o'r tu mewn i'r Grant ADY ac elfen o Band B y Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy dros gyfnod o bum mlynedd. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar y dybiaeth y gweithredir y tabl isod dros Gyfnod 1 a Chyfnod 2 y cynnig:

**Tabl 5 – Dadansoddiad posibl o gostau cyfalaf a gaiff eu cynnwys fesul Canolfan Adnoddau pob ysgol unigol**

| Ffrwd Cyllid | Ysgol | Gwaith Cyfalaf | Gosodion/Celfi ac offer synhwyraidd |
|---|---|---|---|
| **Uwchradd:** | | | |
| Cyllid ADY | Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr – Campws Uwchradd | 0 | 0 |
| Cyllid ADY | Ysgol Gyfun Tredegar | £90,0000 | £40,000 |
| Cyllid ADY | Ysgol Sefydliadol Brynmawr | £100,000 | £30,000 |

| Cynradd: | | | |
|---|---|---|---|
| CDC | Ysgol Gymraeg Bro Helyg (cyfrwng Cymraeg) | £100,000 | £20,000 |
| Cyllid ADY | Ysgol Gynradd Sofrydd | £20,000 | £20,000 |
| Cyllid ADY | Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri Campws Cynradd Heol Roseheyworth | £20,000 | £20,000 |
| Cyllid ADY | Ysgol Gynradd Cwm | £90,000 | £30,000 |
| Cyllid ADY | Ysgol Gynradd Ffydd, heb ei benderfynu eto | £20,000 | £20,000 |

**Costau Cyfalaf/Derbyniadau Cyfalaf**

Os cymeradwyir y cynnig, bydd yn trin y diffyg presennol mewn capasiti ar gyfer y Canolfannau Adnoddau mewn addysg brif ffrwd. Bydd costau cyfalaf yn gysylltiedig gyda'r cynnig mewn hwyluso'r gwaith ailfodelu o fewn adeiladau presennol yr ysgolion. Fodd bynnag, ni fydd y cynnig yn cynnwys trosglwyddo adeiladau na gwerthu unrhyw adeilad. Caiff y cynnig ei reoli o fewn yr adeiladau presennol.

**Trefniadau derbyn**

Caiff derbyn i unrhyw ddarpariaeth ADY, p'un ai yn Ganolfan Adnoddau mewn addysg brif ffrwd neu mewn ysgolion arbenigol (Ysgol Arbennig Pen y Cwm a Chymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon) ei reoli drwy'r Panel ADY o fewn y Tîm Gwasanaethau Cynhwysiant, sy'n cynnwys cynrychiolwyr ysgolion, y Gwasanaeth Cynhwysiant a chynrychiolwyr Addysg yn ehangach yn cynnwys y Seicolegwyr Addysg. Caiff atgyfeiriadau i'r Panel ADY eu gwneud yn uniongyrchol i'r tîm ADY.

**Effaith y Cynnig ar y Gymraeg**

Caiff y cynnig effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth ADY ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg ym Mlaenau Gwent. Ar hyn o bryd dim ond un ysgol gynradd Gymraeg sydd ym Mlaenau Gwent a bydd adeilad ysgol arall gyda 210 lle yn barod i'w ddefnyddio yn 2024. Nod Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-32 y Cyngor yw gwella darpariaeth ADY ar gyfer dysgwyr Cymraeg yn y Fwrdeistref Sirol a bydd y cynnig hwn yn cefnogi cyfarwyddeb y Cyngor. Mae'r ysgol wedi dynodi 8 disgybl y gellid eu cefnogi drwy'r cynnig hwn a gall y gofod a ddynodwyd o fewn yr ysgol ddarparu 15 disgybl a fyddai'n creu gofod yn y dyfodol ar gyfer anghenion disgyblion gyda ADY.

**Sgrinio'r Effaith ar Gydraddoldeb**

Cynhaliwyd Asesiad Sgrinio'r Effaith ar Gydraddoldeb er mwyn asesu effaith cynigion a phenderfyniadau allweddol ar nodweddion gwarchodedig. Roedd yr asesiad o'r farn na fyddai effaith negyddol ar ddim o'r nodweddion gwarchodedig, tra bydd effaith gadarnhaol ar ddisgyblion ADY (gweler **tudalen gwefan** https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/cyngor/ymgynghoriadau/cynigion-i-wella-darpariaeth-a-meithrin-gallu-ar-gyfer-anghenion-dysgu-ychwanegol/ i gael mwy o wybodaeth.

**Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned a'r Gymraeg**

Cynhaliwyd asesiad effaith cymunedol er mwyn asesu effaith cynigion a phenderfyniadau allweddol ar randdeiliaid a'r gymuned ehangach (gweler **Atodiad 4** i gael mwy o wybodaeth).

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)**

Mae'r Cyngor yn ei holl gyfrifoldebau corfforaethol yn sicrhau y byddant bob amser yn ymgysylltu'n gadarnhaol gyda phlant a phobl ifanc. Os gweithredir y cynnig hwn, bydd yn sicrhau

manteision i blant a phobl ifanc yn unol â saith nod creiddiol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, yn benodol:

- **Nod creiddiol 1** – cael dechrau da mewn bywyd;
- **Nod creiddiol 2** – cael ystod cynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysgu;
- **Nod creiddiol 3** – mwynhau'r iechyd gorau posibl ac yn rhydd o gam-driniaeth, erledigaeth a chamfanteisio
- **Nod creiddiol 4** – mynediad i weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
- **Nod creiddiol 5 –** cael gwrando arnynt, eu trin gyda pharch a chydnabyddiaeth i'w hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol
- **Nod creiddiol 6 –** cael cartref diogel a chymuned sy'n cefnogi llesiant corfforol ac emosiynol; a
- **Nod creiddiol 7 –** peidio bod dan anfantais oherwydd tlodi.

### Ymgysylltu â phlant a phobl ifanc yn yr ymgynghoriad hwn

Fel rhan o'r broses ymgynghori, bydd y tîm Trawsnewid Addysg mewn partneriaeth gyda'r ysgol yn ymgynghori gyda disgyblion y mae'r cynnig yn effeithio arnynt, yn ogystal ag ymgysylltu gyda Fforwm Ieuenctid Blaenau Gwent a'r Uwch Gyngor Ysgolion.

### Datblygiadau tai

Dros y 2 flynedd ddiwethaf cafodd 235 o dai (132 yn 2020/21 a 103 yn 2021/22) eu hadeiladu ym Mlaenau Gwent. Mae'r tabl isod yn amcanestyn lefel y twf a disgwylir y bydd yn parhau. Mae gan y darpar gartrefi hyn naill ai ganiatâd cynllunio, yn ceisio cytundeb cyfreithiol neu wedi eu cynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Mae hyn yn debygol o gael effaith ar gynllunio lleoedd disgyblion. Mae'r tîm Trawsnewid Addysg yn monitro'r effaith ar ysgolion.

**Ffigur 7** isod – yn dangos nifer y datblygiadau tai sydd yn y Cynllun Datblygu Lleol ar hyn o bryd

| | Yn ôl yr Astudiaeth Argaeledd Tir Tai sy'n edrych ar amserlen 5-mlynedd caiff y ffigurau dilynol eu dynodi ar gyfer **Cwm Tredegar** | | | | | Yn ôl yr Astudiaeth Argaeledd Tir Tai sy'n edrych ar amserlen 5-mlynedd caiff y ffigurau dilynol eu dynodi ar gyfer **Cwm Ebwy Fawr** | | | | | Yn ôl yr Astudiaeth Argaeledd Tir Tai sy'n edrych ar amserlen 5-mlynedd caiff y ffigurau dilynol eu dynodi ar gyfer **Cwm Ebwy Fach.** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 | 2026 |
| **Cymdeithasau Tai:** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 23 | 15 | 20 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Tai Sector Preifat:** | 3 | 19 | 19 | 37 | 1 | 3 | 5 | 5 | 5 | 5 | 7 | 7 | 6 | 6 | 6 |
| **Cyfanswm** | **3** | **19** | **19** | **37** | **1** | **26** | **20** | **25** | **5** | 5 | **7** | **7** | **6** | **6** | **6** |

Dengys y data uchod fod dros 192 o ddatblygiadau tai ar y gweill rhwng 2022 – 2026. Mae potensial i hyn gynyddu galw o fewn ysgolion prif ffrwd ac ysgolion arbennig yn y dyfodol gyda theuluoedd yn mewnfudo i'r ardal.

### Adnoddau Dynol

Mae goblygiadau Adnoddau Dynol yn deillio o'r cynnig. Mae'r cynnig yn golygu bod cynnydd yn nifer y disgyblon sy'n mynd i Ganolfannau Adnoddau ADY. Bydd angen i gorff llywodraethu pob ysgol sy'n ymwneud gyda darpariaeth newydd gynllunio ar gyfer y gofynion gweithlu yn barod ar gyfer yr estyniad perthnasol.

Bydd Adran Datblygu Sefydliadol y Cyngor yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r cyrff llywodraethu am y cynllunio gweithlu a'r prosesau recriwtio dilynol. Lle mae'r cyrff llywodraethu wedi mabwysiadu polisi Adleoli a Dileu Swyddi y Cyngor ar gyfer unrhyw ysgolion, bydd unrhyw leoedd gwag sy'n deillio fel canlyniad i gynnydd mewn niferoedd ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd ar gyfer staff seiliedig mewn ysgolion ar y gofrestr adleoli ysgolion.

**Partneriaethau**

Mae rhaglen ymgysylltu 'Y Blaenau Gwent a Garem' yn ymwneud â phobl leol, busnesau a sefydliadau yn cael llais yn sut y gallwn wella Blaenau Gwent ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Yn ei flwyddyn gyntaf mae'r grŵp eisoes wedi cysylltu gyda dros 1,500 o bobl o bob rhan o Flaenau Gwent i ganfod sut yr hoffent i'r ardal fod yn y dyfodol. Defnyddiwyd eu hadborth i'n helpu i lunio nifer o flaenoriaethau y byddwn yn gweithio arnynt dros yr ychydig flynyddoedd nesaf i'n helpu i greu'r Blaenau Gwent a garem i gyd.

Yn ei ail flwyddyn mae Bwrdd Strategol y Bartneriaeth wedi parhau i ystyried sut ydym yn gwneud a'r ffocws fu gennym gan ddangos ein bod yn fwrdd uchelgeisiol sy'n dysgu. Yn y cyswllt hwn rydym wedi adolygu ein rhaglen waith a chymryd nifer o brosiectau newydd cyffrous yn cynnwys rhai i drin newid hinsawdd ac anghydraddoldeb bwyd.

Gan edrych i'r dyfodol byddwn hefyd yn pwyso a mesur yr effaith a gafodd COVID-19 ar ein cymunedau a'r hyn y mae'n ei olygu ar gyfer unrhyw newidiadau y gallai fod angen i ni wneud ar ein cynllun llesiant ar gyfer yr ardal.

Mae ein Cynllun Llesiant yn amlinellu ein hamcanion ar gyfer gwella llesiant yn Mlaenau Gwent a chyflawni ein dyletswyddau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Cafodd y 5 amcan yn y cynllun eu datblygu i ddangos bod Blaenau Gwent eisiau:

- Y dechrau gorau mewn bywyd
- Cymunedau diogel a chyfeillgar
- Gofalu am a diogelu'r amgylchedd naturiol
- Llunio llwybrau newydd i ffyniant
- Annog ffyrdd iach o fyw

Ystyriwn mai'r amcanion llesiant hyn yw'r rhai a ystyriwn fod ganddynt rym go iawn i sicrhau newid, h.y. y mae mwyaf o frys amdanynt ac y dengys tystiolaeth wrthym sydd angen grym cyfunol partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyflenwi a gwella llesiant.

## Adran 7: Y Trefniadau Presennol

Estyn

**ESTYN**
Caiff ysgolion eu harolygu fel rhan o raglen genedlaethol o arolygu ysgolion. Diben arolwg yw dynodi nodweddion da a diffygion mewn ysgolion fel y gallant wella ansawdd yr addysg a gynigir a chodi'r safonau a gyflawnir gan eu disgyblion (Estyn). Mae

**Atodiad 5** yn dangos canlyniadau diweddaraf Estyn ar gyfer yr ysgolion a gaiff eu cynnwys yn y cynnig hwn ynghyd ag
**Atodiad 6** unrhyw argymhellion.

Yn nhermau'r cynnig hwn gweler asesiad cyffredinol isod ar y themâu creiddiol o fframwaith arolwg Estyn.

**Ansawdd a safonau mewn Addysg:** Caiff ansawdd a safonau ysgolion ym Mlaenau Gwent eu monitro gan y Cyngor, yn unol â'r system genedlaethol o gategoreiddio ysgolion ac arweiniad yng nghyswllt ysgolion sy'n achosi pryder. Estyn yw Swyddfa Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant Ei Fawrhydi yng Nghymru a chafodd ei sefydlu dan Ddeddf Addysg 1992. Caiff safonau ac ansawdd darpariaeth hefyd eu monitro'n gyfnodol drwy Fframwaith Arolygu Estyn ar gyfer arolygu ysgolion.

Ers 2012 mae'r Cyngor wedi comisiynu'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) i gefnogi gwella ysgolion ym Mlaenau Gwent. Mae'r EAS yn darparu cymorth gwella ysgolion i'r Cynghorau dilynol: Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, Sir Fynwy a Thorfaen. Fel rhan o'r cynnig, bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth gyda EAS i sicrhau lefelau uwch o gymorth ar gyfer yr ysgolion.

**Safonau:** Ni fydd y cynnig yn effeithio ar y safonau yn unrhyw un o'r adeiladau ysgolion a gynigir ar gyfer canolfannau adnoddau yn y Fwrdeistref Sirol. Bydd yr ysgolion yn parhau i dderbyn y lefel briodol o her a chymorth yn nhermau eu darpariaeth ADY newydd gan dîm Cynhwysiant y Cyngor yn ogystal ag EAS.

**Llesiant ac Agweddau at Ddysgu:** Disgwylir i ddarpariaeth lleoedd ychwanegol i ddisgyblion alluogi mwy o blant i fynychu ysgol yn eu cymuned leol. Mae llesiant disgyblion yn flaenoriaeth i'r tîm Cynhwysiant a'r Cyngor a chaiff ei fonitro ac adrodd arno drwy'r Panel ADY. Ni fydd y cynnig yn effeithio ar lesiant ac agweddau at ddysgu.

**Profiadau addysgu a dysgu:** Bydd yr addysgu yn y Canolfannau Adnoddau a gynigir yn y ddogfen ymgynghori yn dilyn y cwricwlwm cenedlaethol gyda Saesneg fel iaith addysgu a dysgu. Nodir hefyd y bydd y Cyngor yn sefydli ei ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg cyntaf ar gyfer disgyblion yn Ysgol Gymraeg Bro Helyg dan y cynnig hwn, a bod hynny wedi cael ei ddynodi fel bwlch yn flaenorol. Ni fydd y cynnig yn cael effaith negyddol ar brofiadau addysgu a dysgu.

**Gofal, cefnogaeth ac arweiniad:** Mae gan bob ysgol ym Mlaenau Gwent bolisïau a strategaethau tra effeithlon ar gyfer hyrwyddo gofal, cymorth ac arweiniad sydd â phwyslais cryf ar gefnogi ymddygiad disgyblion, eu cyfathrebu a'u llesiant emosiynol. Fel canlyniad, mae bron yr holl ddisgyblion ar draws y Fwrdeistref Sirol yn ymddwyn yn dda ac yn cymryd rhan frwdfrydig yn eu dysgu. Gall y cynnig gyflwyno ystod addas o weithgareddau sy'n cysylltu'n dda gyda diddordebau a galluoedd disgyblion. Bydd y cynnig yn effeithiol wrth hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol a diwylliannol disgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o'n hysgolion sydd eisoes â darpariaeth Canolfannau Adnoddau yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol gan sicrhau cynllunio effeithiol ar y cyd fydd yn cefnogi a chynghori staff am anghenion disgyblion unigol. Mae hyn hefyd yn hollbwysig yn y Canolfannau Adnoddau newydd a sefydlir dan y cynnig hwn.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:** Bydd gan y Tîm Cynhwysiant a phenaethiaid y Canolfannau Adnoddau arfaethedig weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer y ddarpariaeth a gynigir. Mae cyfathrebu clir ac effeithiol gyda llywodraethwyr, disgyblion, rhieni a staff drwy'r Tîm Cynhwysiant yn darpariaethau cyfredol. Mae a bydd y timau uwch arweinyddiaeth yn effeithiol, yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau ac yn gwneud eu gwaith yn effeithiol.

**Effaith y cynnig**

Pe byddai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, bydd yn parhau i ddarparu amgylchedd dysgu ansawdd uchel i gefnogi cynyddu deilliannau ar gyfer pob disgybl ADY sydd angen lleoliad mewn Canolfannau Adnoddau mewn lleoliadau prif ffrwd. Bydd y cynnig yn sicrhau y caiff y safonau yn ein lleoliadau cyfredol, sydd eisoes yn rhagorol, eu cynnal. Mae llawer o ymchwil a diwygio ADY wedi dangos fod disgyblion yn sicrhau deilliannau gwell pan maent yn cymryd rhan lawn mewn dysgu mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion.

## Adran 8: Trosolwg o'r Cynnig

Mae **Tabl 6** isod yn rhoi manylion Cyfnod 1 y cynnig yn cynnwys y categori, iaith, ystod oedran a manylion perthnasol eraill yng nghyswllt y cynnig am ddarpariaethau ADY newydd:

| **Canolfannau Adnoddau newydd a gynigir** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr – Cyfnod Uwchradd | Ysgol Gyfun Tredegar | Ysgol Gynradd Sofrydd | Ysgol Gymraeg Bro Helyg |
| **Nifer a threfniadau derbyn** | Caiff derbyniadau i Ganolfan Adnoddau eu cydlynu gan dîm Cynhwysiant Blaenau Gwent ar sail angen | | | |
| **Ystod oedran** | 11-16 | 11-16 | 3-11 | 3-11 |
| **Nifer lleoedd i ddisgyblion mewn Canolfan Adnoddau** | **6** | **6-8** | **10** | **10-15** |
| **Capasiti'r ysgol** | 1191 | 767 | 162 | 215 |
| **Lleoliad** | Rhodfa Calch, Glynebwy NP23 6GL | Lôn Stabl Tredegar NP22 4BH | Heol Sofrydd, Sofrydd NP11 5DW | Stad Ddiwydiannol Rising Sun, Blaenau NP13 3DQ |
| **Categori ac Iaith Ysgol** | Cymunedol Cyfrwng Saesneg | Cymunedol Cyfrwng Saesneg | Cymunedol Cyfrwng Saesneg | Cymunedol Cyfrwng Cymraeg |
| **Trefniadau a pholisi cludiant** | Caiff cludiant ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl-16 2023/24 Blaenau Gwent. Mae mwy o wybodaeth yn Adran 7. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cost fesul disgybl 2021/22** | £5,649 | £5,591 | £5,386 | £4,981 |
| **Canlyniadau arolygiadau Estyn** | Gweler y canlyniadau a'r argymhellion yn **Atodiad 6 (Tudalennau 38-39) a 7 (Tudalennau 40-41)** | | | |
| **Categori Cyflwr Adeilad** | A | B | C | B |
| **Categori Addasrwydd Adeilad** | A | A/B | C | B |
| **Rhestr ystafelloedd** | Caiff ystafelloedd eu penderfynu yn dilyn yr ymgynghoriad a buddsoddiad cyfalaf | | | |

Mae **Tabl 7** yn rhoi manylion Cyfnod 2 y cynnig yn cynnwys categori, iaith, ystod oedran a manylion perthnasol eraill yng nghyswllt y cynigion am ddarpariaeth ADY newydd:

| **Canolfannau Adnoddau newydd a gynigir** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Ysgol Sefydliadol Brynmawr | Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri – Campws Cynradd Heol Roseheyworth | Lleoliad Ysgol Gynradd Seiliedig ar Ffydd | Ysgol Gynradd Cwm |
| **Nifer a threfniadau derbyn** | Caiff derbyniadau i Ganolfannau Adnoddau eu cydlynu gan dîm Cynhwysiant Blaenau Gwent ar sail angen | | | |
| **Ystod oedran** | 11-16 | 3-11 | 3-11 | 3-11 |
| **Nifer lleoedd disgyblion yn y Ganolfan Adnoddau** | **10** | **10** | **10** | **10** |
| **Capasiti'r ysgol** | 820 | 980 ar gyfer yr holl safleoedd cynradd | Dim yn hysbys | Dim yn hysbys |
| **Lleoliad** | Heol Intermediate, Brynmawr NP23 4XT | Heol Roseheyworth, Abertyleri. NP13 1SR | Heb ei benderfynu hyd yma | Stryd Canning Cwm, Glynebwy NP23 7RD |
| **Categori ac iaith ysgol** | Sefydliadol Cyfrwng Saesneg | Cymunedol Cyfrwng Saesneg | Ysgol a gynorthwyir yn wirfoddol Cyfrwng Saesneg | Cymunedol Cyfrwng Saesneg |
| **Trefniadau a pholisi cludiant** | Caiff cludiant ei ddarparu yn unol â Pholisi Cludiant Rhwng y Cartref a'r Ysgol ac Ôl-16 2023/24 Blaenau Gwent. Mae mwy o wybodaeth yn Adran 1. | | | |
| **Cost fesul disgybl 2021/22** | £5,056 | £5,449 | dim yn hysbys | £5,837 |
| **Canlyniadau arolygon Estyn** | Gweler canlyniadau ac argymhellion yn **Atodiad 6 (tudalen 38-39) a 7 (Tudalen 40-41)** | | | |
| **Categori Cyflwr Adeilad** | C | B | dim yn hysbys | C |
| **Categori Addasrwydd Adeilad** | C | B | n/k | C |
| **Rhestr ystafelloedd** | Ystafelloedd i gael eu penderfynu yn dilyn ymgynghoriad a buddsoddiad cyfalaf | | | |

**Dalgylch ysgolion**
Mae dalgylch y Canolfannau Adnoddau yn cynnwys pob rhan o'r Fwrdeistref Sirol. Bydd lleoliad disgyblion mewn canolfannau yn dibynnu ar anghenion y disgyblion. Ni fydd hyn yn newid fel rhan o'r cynnig.

**Trefniadau pontio**
Ni fydd unrhyw newid ar gyfer disgyblion sydd yn unrhyw un o'r Canolfannau Adnoddau neu Ysgolion Arbennig yng nghanolfannau presennol y fwrdeistref sirol.

# Adran 9: Ffurflen Ymgynghoriad

## Holiadur Ymgynghoriad

Rhowch eich sylwadau ar y cynnig yn y ddogfen ymgynghoriad i ymestyn y capasiti ar gyfer disgyblion mewn Canolfannau Adnoddau drwy sefydlu a newid y ddarpariaeth ADY mewn nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws y Fwrdeistref Sirol os gwelwch yn dda. Gallech hefyd fod am nodi pa un o'r dilynol sy'n adlewyrchu eich barn.
Gellir gwneud hyn mewn 3 ffordd.

**1. Drwy'r ddolen electronig a ddarparwyd drwy:** https://online1.snapsurveys.com/d1daqu

**2. Drwy'r ffurflen isod a'i hanfon at:** 21stcenturyschools@blaenau-gwent.gov.uk

| | |
|---|---|
| Rwy'n cefnogi'r cynnig yn llwyr | |
| Rwy'n cefnogi'r cynnig yn rhannol | |
| Nid wyf yn cefnogi'r cynnig | |

| Eich sylwadau: |
|---|
| |

Enw: ______________________________________________ Dyddiad: _________
E-bost: ____________________________________________________________
Cyfeiriad: __________________________________________ Cod Post: _______

**Nodwch os ydych yn:**

**Cynradd:** Athro / Staff Ysgol Heb fod yn Addysgu / Llywodraethwr / Rhiant / Disgybl / Preswylydd Lleol / Arall (nodwch) ______________________________

**Uwchradd:** Athro / Staff Ysgol Heb fod yn Addysgu / Llywodraethwr / Rhiant / Disgybl / Preswylydd Lleol / Arall (nodwch) ______________________________

**3. Anfonwch drwy'r post at Joanne Watts, Rheolwr Gwasanaeth - Trawsnewid Addysg a Newid Busnes Cyfarwyddiaeth Addysg, Llawr 8 Llys Einion, Abertyleri, NP13 1DB**

**Diolch i chi am eich amser a'ch cyfraniad at yr ymgynghoriad. Caiff eich barn, sylwadau ac ymatebion eu cofnodi a rhoddir adroddiad arnynt i Bwyllgor Gweithrediaeth y Cyngor yn Adroddiad Canlyniad yr Ymgynghoriad.**

**Rhaid derbyn yr holl sylwadau erbyn 5:00pm ddydd Mawrth 6 Mehefin 2023 fan bellaf.**

# Atodiad 1 – Rhestr Ddosbarthu ar gyfer y Ddogfen Ymgynghori

| | |
|---|---|
| Rhieni (a lle'n bosibl ddarpar rieni) gofalwyr a gwarcheidwaid ac aelodau staff yr ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt | Gweinidogion Cymru |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, rhieni disgyblion yn mynychu ysgolion cynradd y mae disgyblion fel arfer yn trosglwyddo ohonynt i'r ysgol uwchradd | Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol o Senedd Cymru ac Aelodau Senedd San Steffan yn cynrychioli'r ardal a wasanaethir gan/y bwriedir iddi gael eu gwasanaethu gan yr ysgol sy'n destun y cynnig. |
| Yr awdurdod cynnal neu ddarpar awdurdod cynnal unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt. | Estyn |
| Unrhyw awdurdod lleol arall (yn cynnwys rhai yn Lloegr lle'n berthnasol) sy'n debygol o gael eu heffeithio – yn cynnwys yn achos darpariaeth ADY un-swydd, unrhyw awdurdod sy'n lleoli neu'n debygol o leoli disgyblion gydag ADY ynddo i ddosbarthu i ysgolion yn eu hardaloedd fel sy'n briodol | Undebau llafur addysgu a staff (NUT; NASUWT; ATL; UCAC; UNISON; GMB) yn cynrychioli athrawon a staff eraill yn yr ysgol sy'n destun y cynigion |
| Yr Eglwys yng Nghymru ac Awdurdod Esgobaeth Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol sy'n debygol yr effeithir arnynt wedi ei lleoli | Y Consortiwm Addysg Rhanbarthol perthnasol |
| Unrhyw gorff crefyddol arall perthnasol ar gyfer unrhyw ysgol y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt | Y Comisiynydd Heddlu a Throseddu ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan/y bwriedir iddi gael ei gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion |
| Corff llywodraethu unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion | Unrhyw gyngor cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan/y bwriedir iddynt cael eu gwasanaethu gan unrhyw ysgol sy'n destun y cynigion |
| Corff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigydd yn ystyried fod y cynnig yn debygol o effeithio arnynt | Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, unrhyw ddarparwyr annibynnol neu wirfoddol y gellir effeithio arnynt yn cynnwys Mudiad Meithrin. Hefyd pob gosodiad/darparydd Blynyddoedd Cynnar Cofrestredig/Gwirfoddol ym Mlaenau Gwent |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth feithrin, y Partneriaethau Datblygu Blynyddoedd Cynnar a Gofal Cynnar lle mae rhai | Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth ADY, unrhyw gorff iechyd neu drydydd sector gyda diddordeb |
| Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth uwchradd, unrhyw sefydliadau addysg bellach sy'n gwasanaethu ardal yr ysgol (Coleg Gwent) | Yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg, y Comisiynydd Iaith. |

Yn ychwanegol at yr uchod, caiff y dilynol hefyd eu cynnwys yn y dosbarthiad:

| | |
|---|---|
| Pennaeth pob ysgol a gynhelir gan Awdurdod Addysg Lleol Blaenau Gwent | Cyfarwyddiaethau eraill Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent |
| Pob Aelod Etholedig o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion Blaenau Gwent |
| Y Gwasanaeth Gyrfaoedd | Llyfrgelloedd |
| RhAG (Rhieni dros Addysg Gymraeg) | SNAP Cymru |

Atodiad 2 – Crynodeb o leoliadau ysgolion, nifer disgyblion ac amcanestyniadau

Atodiad– Crynodeb o leoliadau ysgolion, nifer disgyblion ac amcanestyniadau

| | | Ysgolion Pob Oed(3-16) | | | | | | Ysgolion Cynradd | | | | | | | | | | | | | | | | | | Ysgolion Uwchradd | | Darpariaeth Ysgol Arbennig | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymuned Ddysgu Abertyleri | | | | Ebwy Fawr | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr | | | |
| | | Campws Uwchradd | Campws Cynradd Heol Rosehyworth | Campws Cynradd Six Bells | Campws Cynradd Bryd Tyleri | Cyfnod Cynradd | Cyfnod Uwchradd | Catholig Holl Seintiau | Beaufort Hill | Blaen y Cwm | Brynbach | Coed y Garn | Cwm | Deighton | Georgetown | Glanhywel | Glyncoed | Rhos y Fedwen | Catholig Sant Joseff | Eglwys yng Nghymru Santes Fair | Catholig Santes Fair | Sofrydd | Trehelyg | Ysgol Gymraeg Bro Helyg | Ystruth | Sefydliad Brynmawr | Cyfun Tredegar | Lleoliad Cynradd | Lleoliad Uwchradd | Ty Sirhowy | Ysgol Arbennig Pen y Cwm |
| Ysgol | Lleoliad yr Ysgol | Ebwy Fach | Ebwy Fach | Ebwy Fach | Ebwy Fach | Glynebwy | Glynebwy | Glynebwy | Glynebwy | Glynebwy | Tredegar | Ebwy Fach | Glynebwy | Tredegar | Tredegar | Tredegar | Glynebwy | Glynebwy | Tredegar | Ebbw Fach | Ebbw Fach | Ebwy Fach | Glynebwy | Ebwy Fach | Ebbw Fach | Ebbw Fach | Tredegar | Tredegar | Glynebwy | Glynebwy | Glynebwy |
| | Categgori Ysgol Cymunedol, Gwirfoddol/ a Reoli/ Cymorth Gwirfoddol/ Sefydliadol | C | C | C | C | C | C | GaR | C | C | C | C | C | C | C | C | C | C | GaR | C | GaR | C | C | C | C | Ff | C | C | C | B | C |
| | Iaith Cyfrwng Saesneg, Cymraeg | S | S | S | S | S | S | S | S | S | S | S | S | S | S | S | S | S | S | S | S | S | S | C | S | S | S | S | S | S | S |
| | Capasiti (Medi 22) | 750 | 980 | | | 284 | 1191 | 188 | 210 | 270 | 210 | 210 | 210 | 210 | 420 | 296 | 320 | 177 | 107 | 210 | 210 | 162 | 420 | 215 | 294 | 820 | 767 | N/A | N/A | N/A | N/A |
| | Capasiti Meithrin (Ion 2023) | D/G | 45 | 26 | 41 | 58 | D/G | | | | | | | | | | | | | | | | | | | D/G | D/G | D/G | D/G | D/G | D/G |
| Nifer ar y Gofrestr yn Ionawr | 2019 | | | | | N/A | N/A | 179 | 214 | 271 | 192 | 197 | 183 | 164 | 376 | 265 | 265 | 122 | 99 | 207 | 174 | 148 | 381 | 208 | 276 | 701 | 664 | D/G | D/G | D/G | D/G |
| | 2020 | 654 | 176 | | | 233 | 940 | 176 | 209 | 251 | 202 | 175 | 160 | 175 | 381 | 251 | 301 | 121 | 93 | 204 | 176 | 142 | 378 | 223 | 282 | 655 | 688 | D/G | D/G | D/G | D/G |
| | 2021 | 705 | 795 | | | 244 | 1011 | 177 | 205 | 239 | 204 | 160 | 178 | 187 | 386 | 232 | 305 | 126 | 97 | 198 | 175 | 138 | 389 | 220 | 284 | 620 | 745 | D/G | D/G | D/G | D/G |
| | 2022 | 699 | 788 | | | 224 | 1069 | 176 | 202 | 232 | 200 | 160 | 172 | 195 | 400 | 238 | 293 | 109 | 95 | 206 | 176 | 131 | 398 | 222 | 291 | 559 | 706 | D/G | D/G | D/G | D/G |
| Tueddiad Amcanestyn Ysgol | 2023 | 722 | 760 | | | 233 | 1103 | | 200 | 240 | 206 | 155 | 175 | 201 | 392 | 246 | 313 | 94 | | | | 120 | 415 | | 295 | 564 | 729 | D/G | DG | D/G | D/G |
| | 2024 | 737 | 760 | | | 228 | 1119 | | 201 | 232 | 194 | 156 | 177 | 205 | 384 | 245 | 281 | 101 | | | | 109 | 406 | | 300 | 532 | 749 | D/G | D/G | D/G | D/G |
| | 2025 | 750 | 769 | | | 221 | 1122 | | 195 | 244 | 195 | 153 | 172 | 206 | 386 | 245 | 256 | 109 | | | | 100 | 417 | | 290 | 535 | 772 | D/G | D/G | DG | D/G |
| | 2026 | 735 | 726 | | | 231 | 1073 | | 198 | 238 | 192 | 169 | 173 | 206 | 356 | 265 | 239 | 119 | | | | 97 | 406 | | 296 | 533 | 761 | D/G | D/G | D/G | D/G |
| | 2027 | 712 | 741 | | | 238 | 1019 | | 196 | 256 | 180 | 166 | 176 | 202 | 342 | 269 | 216 | 129 | | | | 80 | 403 | | 288 | 538 | 784 | D/G | D/G | D/G | N/A |

## Atodiad - Rhestr Arolygon Cyflwr Adeiladau a Throsolwg Cyfleusterau

| | | Ysgolion Pob Oed(3-16) | | | | | | Ysgolion Cynradd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Uwchradd | | Darpariaeth Ysgol Arbennig | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cymuned Ddysgu Abertyleri | | | | Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | Canolfan Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon | | | |
| | | Campws Uwchradd | Campws Heol Rosebyworth | Campws Six Bells | Campws Stryd Tyleri | Cyfnod Cynradd | Cyfnod uwchradd | Catholig Holl Seintiau | Beaufort Hill | Blaen y Cwm | Bryn Bach | Coed yGarn | Cwm | Deighton | Georgetown | Glanhywel | Glyncoed | Rhos-y-Fedwen | Sant Illtyd | Catholig Sant Joseff | [illegible] Fair | [illegible] Santes Fair | Sofrydd | Trehelyg | Ysgol Gymraeg Brohelyg | Ystruth | Sefydliad Brynmawr | Cyfun Tredegar | Lleoliad Cynradd | Lleoliad Uwchradd | Ty [illegible] | Ysgol Arbennig Pen y Cwm |
| Ysgol | Arolwg Cyflwr | c | B | A | A | A | A | C | B | B | B/C | B | C | B | B | C | D * adeilad newydd agor Medi 2004 | B | | B | B | B | B | B | B | B/C | C | B | C | A * newydd gwblhau alleamplo | B | A |
| Rhestr Cyfleusterau Safleoedd Presennol | Meithrin | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | ✓ | ✓ | | | | | | |
| | Ystafelloedd Dosbarth/ Gofod Rhannu Addysgu | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Ystafell Staff | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |
| | Swyddfa'r Pennaeth | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| | Derbynfa | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| | Storfa | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ |
| | Defnydd Aml-bwrpas/ Neuadd | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| | Cegin | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | ✓ |
| | Ystafell Gotiau | | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ | | ✓ | | | | ✓ |

## Atodiad 4 – Asesiad Effaith ar y Gymuned Canolfannau Dysgu ADY

Mae Asesiadau o Effaith ar y Gymuned yn ffordd wedi ei strwythuro i'r Cyngor ddeall yn llawn oblygiadau ein penderfyniadau a ph'un ai ydynt yn niweidiol neu wahaniaethol i rai grwpiau neu adrannau o'r gymuned. Maent yn ein helpu i ystyried effaith penderfyniadau a pholisïau'r Cyngor o fewn a rhwng cymunedau yn fwy cyffredinol. Bydd y broses Asesiad Effaith ar y Gymuned yn sicrhau fod ein proses gwneud penderfyniadau yn gadarn ac yn effeithio ar bob cymuned o fewn Blaenau Gwent gan sicrhau y cânt eu hystyried yn llawn ym mhrosesau gwneud penderfyniadau y Cyngor. Drwy gynnal asesiadau effaith, mae'r Cyngor yn gweithio i hyrwyddo cydraddoldeb ar gyfer ein holl ddefnyddwyr gwasanaeth, gweithwyr cyflogedig a'r gymuned ehangach a wasanaethwn.

Mae 7 Canolfan Adnoddau yn y Fwrdeistref Sirol. Cawsant eu rhannu yn dri chwm neilltuol er mwyn hwylustod gwybodaeth.

| Ardal Ebwy Fawr | Ardal Ebwy Fach | Ardal Tredegar |
|---|---|---|
| ○ Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr – Campws Uwchradd<br>○ Ysgol Gynradd Trehelyg | ○ Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri – Campws Cynradd Six Bells a'r Campws Uwchradd<br>○ Ysgol Gynradd Ystruth<br>○ Ysgol Gynradd Coed y Garn | ○ Ysgol Gynradd Glanhywi |

Mae Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru a ddiweddarwyd yn 2019 yn dadansoddi ac yn disgrifio'r patrymau a welir yng Nghymru rhwng gwahanol gategorïau amddifadedd gyda gwreiddiau dwfn.

Dengys y gyfran o bobl ifanc mewn amddifadedd incwm ym mhob awdurdod lleol, tueddiad dros gyfnod rhwng 2012-2013 a 2016-2017, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019: dadansoddiad amddifadedd yn cyfeirio at blant ifanc | LLYW.CYMRU ar gyfer Blaenau Gwent yn 2012/13 bod cyfartaledd o 41 plentyn o gymharu â 37 yn 2016/17. Mae hyn yn dal i fod yn sylweddol uwch na chyfartaledd Cymru o 30 yn 2012/13 a 28 yn 2016/17. Gostyngodd y gyfran o blant ifanc mewn amddifadedd incwm yng Nghymru flwyddyn ar flwyddyn rhwng 30% yn 2012-13 i 27% yn 2015-16, fodd bynnag ers hynny mae'r gyfradd amddifadedd wedi cynyddu ychydig i 28% yn 2016-17.

**Datblygiad arfaethedig:**
Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, byddai'n sicrhau 43 o leoedd ychwanegol ar gyfer disgyblion yng nghyfnod 1 yn unig sydd angen lle mewn Canolfan Adnoddau a gaiff ei rhedeg gan y Cyngor. Gallai Cyfnod 2 weld 30 lle posibl mewn lleoliadau cynradd a 10 mewn lleoliadau uwchradd. Byddai'r cynnydd yn rhoi buddion sylweddol i ddisgyblion cyfredol a disgyblion newydd sydd angen lleoliadau ynghyd â buddion i'r gymuned ehangach a theuluoedd disgyblion yn bod â darpariaeth agosach ar gael iddynt.

**Cyfran disgyblion:**
Mae cynnig y Cyngor yn anelu i sicrhau amgylchedd dysgu ansawdd uchel parhaus ar gyfer disgyblion sydd angen darpariaeth ADY, drwy ymestyn capasiti Canolfannau Adnoddau lleoliad prif ffrwd er mwyn darparu ar gyfer llawer o ddisgyblion y Fwrdeistref Sirol sydd yn/neu a fyddai fel arall yn cael eu lleoli tu allan i'r sir yn unol gyda'u hanghenion a/neu argaeledd a digonolrwydd lleoedd disgyblion. Cafodd y lleoliadau eu dewis yn seiliedig ar gapasiti adeiladau ysgolion prif ffrwd i leoli canolfannau adnoddau ar draws y fwrdeistref a'r angen am fwy o adnoddau ASD yn lleoliad uwchradd Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon.

Mae tua 2 disgybl o'r tu fas i'r Fwrdeistref Sirol yn cael eu haddysgu mewn Canolfannau Adnoddau cynradd ac uwchradd yn y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn yn llai na 2.2% o'r cyfanswm dyraniad lleoedd gyda mwyafrif y disgyblion yn byw o fewn Blaenau Gwent. Bydd argaeledd lleoedd yn y dyfodol ar gyfer disgyblion "tu fas i'r sir" yn dibynnu ar alw o fewn Blaenau Gwent yn y lle cyntaf.

**Cyfleusterau presennol a/neu wasanaethau a gynigir;**
Fel rhan o'r ddogfen ymgynghori caiff rhestr lawn o gyfleusterau ei chofnodi ar gyfer pob ysgol y bydd y cynnig yn effeithio arnynt. Wrth ffurfio Canolfannau Adnoddau bydd elfen ychwanegol ar gyfer ystafell synhwyraidd fel rhan o bob Canolfan Adnoddau a ddatblygir.

**Amser teithio:**
Gan mai ailwampio ystafelloedd ar safleoedd prif ffrwd presennol yw'r cynnig, ni fydd unrhyw effaith ar bellteroedd teithio ar gyfer disgyblion presennol. Gan fod y dalgylch ar gyfer lleoedd ADY yn cynnwys yr holl Fwrdeistref Sirol, ni fydd yr uchafswm pellter a deithir yn ddim mwy na 8 milltir, tua 20 munud mewn car/bws. Bydd pellteroedd/amserau teithio yn cynyddu ar gyfer y disgyblion hynny gyda lleoliad o ymhellach i ffwrdd.

**Sut yr ymgysylltir â rhieni a disgyblion pe cytunir ar y cynnig?**
Mae'r Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd proses bontio effeithiol a llyfn i sicrhau nad oes fawr, os unrhyw ymyriad, pe cymeradwyid y cynnig i ehangu capasiti Canolfannau Adnoddau yn ei leoliad prif ffrwd a lleoliad Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon. Bydd y tîm Cynhwysiant yn ffurfio rhan o dîm y prosiect i gyfrannu ar y cyd at ddatblygiad cyffredinol darpariaethau newydd.

Caiff rhieni/gofalwyr a disgyblion wybodaeth berthnasol i gynorthwyo eu dealltwriaeth o'r cynnig a'r cymorth mwyaf priodol y gallant ei gynnig i'w plant yn ystod y cyfnod pontio. Bydd y tîm Cynhwysiant a chynrychiolwyr ysgolion hefyd yn cydweithio gyda gwasanaethau eraill lle bo angen i ddynodi teuluoedd a all fod angen cymorth ychwanegol. Bydd ymgysylltu gyda rhieni a'r gymuned yn parhau yn flaenoriaeth allweddol ar hyd y broses.

**Y goblygiadau ehangach y byddai'r newidiadau yn eu cael ar ddarpariaethau trafnidiaeth gyhoeddus:**
Ni ddisgwylir y byddai'r cynnig yn cael unrhyw oblygiadau sylweddol ar gyfer darpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus yn yr ardal gan y caiff cludiant disgyblion ei ddarparu i raddau helaeth gan gerbydau ar gontract.

**Materion diogelwch cymunedol ehangach:**
Ni fyddai'r cynnig yn cael unrhyw effaith uniongyrchol ar y gymuned ehangach. Caiff lleoedd mewn Canolfannau Adnoddau eu cynnig i ddiwallu anghenion disgyblion.

- Bydd y Canolfannau Adnoddau presennol yn parhau yn eu lleoliad presennol.
- Bydd o fudd i deuluoedd disgyblion sydd angen lleoedd Canolfan Adnoddau ADY drwy i'w plant gael eu haddysg o fewn y Fwrdeistref Sirol lle maent yn byw.
- Ni ragwelir unrhyw broblemau diogelwch sylweddol.

**Beth fyddai'r effaith ar iechyd a llesiant?**
Byddai creu Canolfannau Adnoddau ychwanegol yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a llesiant disgyblion. Gyda nifer lai yn yr ystafelloedd dosbarth, mae'r ffocws ar ddisgyblion a'u hanghenion, felly bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol iawn ar iechyd a llesiant y rhai sy'n mynychu, fydd yn cael mynediad i'r safon uchaf yn nhermau cyfleusterau, addysg a gofal.

**Asesiad o'r Effaith ar Gludiant**
Mae Mesur Teithio Dysgwyr (Cymru) 2008 yn rhoi dyletswydd ar y cyngor i asesu anghenion teithio dysgwyr dan 19 oed. Yn ogystal â'r plant hynny sy'n gymwys am ddarpariaeth cludiant am ddim oherwydd eu bod yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer cymhwyster, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i asesu anghenion cludiant dysgwyr sy'n cerdded i'r ysgol. Mae'n debygol y bydd effaith ar gludiant a theithio, fodd bynnag, bydd unrhyw oblygiadau ar drefniadau cludiant yn fwy cadarnhaol na phetai'r Cyngor i ddefnyddio darpariaeth o'r tu allan i'r fwrdeistref i ddiwallu anghenion y disgyblion.

**Asesiad o'r Effaith ar Staff**
Ni fydd unrhyw effaith ar staff presennol er y gall y cynnydd mewn capasiti Canolfannau Adnoddau newydd roi cyfleoedd newydd i recriwtio staff ychwanegol. Serch hynny, yn ogystal â'u rôl fel ymgyngoreion statudol, cynhelir ymgynghoriad ystyrlon gydag unrhyw staff yr effeithir arnynt ac undebau llafur cydnabyddedig ar effaith a chanlyniad posibl yr ymgynghoriad statudol. Cynhelir trafodaethau drwy brosesau ymgynghori ar y cyd a gytunwyd gydag undebau llafur cydnabyddedig (JCC) ac ymgynghoriad ar y cyd.

**Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol**Mae'r cynnig hwn yn benodol yn trin y materion digonolrwydd yng nghyswllt nifer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer plant gyda ADY yn y Fwrdeistref a bydd felly yn cael effaith gadarnhaol.

## .Atodiad 5 – Canlyniadau Arolwg Estyn

| Ysgol a dyddiad yr arolwg diwethaf | Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | | Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | | | | Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheoli? | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Safonau | Llesiant | Profiadau dysgu | Addysgu | Gofal cefnogaeth ac arweiniad | Amgylchedd dysgu: | Arweinyddiaeth | Gwella ansawdd | Gweithio partneriaeth | Rheoli adnoddau |
| Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri: arolwg 2018 | Digonol angen gwella | Digonol angen gwella | Digonol angen gwella | Digonol angen gwella | Digonol angen gwella | | Anfoddhaol ac angen gwella fel mater o frys | | | |
| Ysgol Gynradd Coed y Garn: Adroddiad 2022 | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da |
| Ysgol Gynradd Glanhywi: Adroddiad 2018 | Da | Da | Da | Da | Da | | Da | | | |
| Ysgol Gynradd Trehelyg: Adroddiad 2017 | Digonol | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Digonol |
| Ysgol Gynradd Ystruth: Adroddiad 2017 | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da |
| Cymuned Ddysgu 3-16 Ebwy Fawr: Adroddiad 2016 | Da | Anfoddhaol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Da | Digonol | Digonol | Da | Digonol |

| | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gyfun Tredegar: Adroddiad 2016 | Da | Rhagorol | Da | Da | Da | Rhagorol | Da | Da | Rhagorol | Da |
| Ysgol Gymraeg Bro Helyg: Adroddiad 2020 | Da | Da | Da | Digonol | Da | | Da | | | |
| Ysgol Gynradd Sofrydd: Adroddiad 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Da | Rhagorol | Da |
| Campws Uwchradd Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon: Adroddiad 2022 | | | | | | | | | | |
| Ysgol Sefydliadol Brynmawr: Adroddiad 2019 | Anfoddhaol ac angen gwella fel mater o frys | Anfoddhaol ac angen gwella fel mater o frys | Anfoddhaol ac angen gwella fel mater o frys | Anfoddhaol ac angen gwella fel mater o frys | Digonol ac angen gwella | | Anfoddhaol ac angen gwella fel mater o frys | | | |
| Ysgol Gynradd Cwm: Adroddiad 2020 | Da | Da | Da | Da | Da | | Da | | | |

## Adroddiadau Estyn drwy ddolenni:

| | |
|---|---|
| **Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri - ALC Estyn Report 2018** | **Ysgol Gyfun Tredegar- Tredegar Comp Estyn Report 2016** |
| **Ysgol Gynradd Coed y Garn - Coed -y- Garn Primary Estyn Report 2022** | **Ysgol Sefydliadol Brynmawr - Brynmawr Foundation Estyn Report 2019** |
| **Ysgol Gynradd Glanhywi - Glanhowy Estyn Report 2018** | **Ysgol Gynradd Sofrydd - Sofrydd Estyn Report 2016** |
| **Ysgol Gynradd Trehelyg- Willowtown Estyn Report 2017** | **Cymuned Ddysgu 3-16 Canolfan yr Afon - The River Centre Estyn Report 2022** |
| **Ysgol Gynradd Ystruth- Ystruth Estyn Report 2017** | **Ysgol Gynradd Cwm - Cwm Primary Estyn Report 2019** |
| **Cymuned Ddysgu 3-18 Ebwy Fawr - EFLC Estyn report 2016** | **Ysgol Gymraeg Bro Helyg – Adroddiad Estyn Ysgol Bro Helyg 2020** |

## A 6 – Argymhellion Arolygon Estyn

| Ysgol | Argymhellion ar gyfer Gwella |
|---|---|
| Cymuned Ddysgu 3-16 Abertyleri | ➢ **R1** Gwella safonau, yn arbennig ddeilliannau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4.<br>➢ **R2** Gwella safonau ymddygiad yn y cyfnod uwchradd.<br>➢ **R3** Gwella ansawdd addysgu.<br>➢ **R4** Gwella cynllunio ar gyfer cynnydd sgiliau, yn cynnwys y Cymraeg ac ehangder y cwricwlwm cyfnod uwchradd.<br>➢ **R5** Gwella ansawdd ac effaith arweinyddiaeth ar bob lefel, yn cynnwys mewn hunanwerthuso a chynllun ar gyfer gwella<br>➢ **R6** Darparu rheolaeth ariannol gadarn i drin y gyllideb ddiffyg. |
| Ysgol Gynradd Coed y Garn | ➢ **R1** Trin y problemau yn gysylltiedig â safle'r ysgol, a gafodd eu dynodi adeg yr arolwg.<br>➢ **R2** Herio pob disgybl drwy addysgu cyson ac effeithlon.<br>➢ **R3** Sicrhau fod athrawon yn rhoi cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu annibynnol estynedig.<br>➢ **R4** Sicrhau fod adborth athrawon yn symud disgyblion unigol yn effeithiol i'r cam nesaf yn eu dysgu. |
| Ysgol Gynradd Glanhywi | ➢ **R1** Gwella sillafu a safonau llawysgrifen.<br>➢ **R2** Codi safonau yn y defnydd o Gymraeg llafar.<br>➢ **R3** Sicrhau fod disgyblion yn deall yn gliriach yr hyn y dylent ei gyflawni yn ystod gwersi yng nghyfnod allweddol 2.<br>➢ **R4** Sicrhau fod asesiad yn gyson a chywir wrth farnu lefelau uwch o gyrhaeddiad. |
| Ysgol Gynradd Trehelyg | ➢ **R1** Gwella safonau mewn darllen ac ysgrifennu.<br>➢ **R2** Gwella safonau yn y Gymraeg.<br>➢ **R3** Rhoi cyfleoedd i ddisgyblion i ddatblygu eu sgiliau rhifedd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm.<br>➢ **R4** Rhannu arfer gorau mewn addysgu a dysgu yn fwy effeithiol ar draws yr ysgol.<br>➢ **R5** Sicrhau fod defnydd priodol ac effeithol o'r grant amddifadedd disgyblion. |
| Ysgol Gynradd Ystruth | ➢ **R1** Gwella gallu ysgolion mewn siarad Cymraeg.<br>➢ **R2** Rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion weithredu eu sgiliau rhifedd ar draws y cwricwlwm.<br>➢ **R3** Gwella'r cydbwysedd rhwng gweithgareddau a gychwynnir gan y plant a gweithgareddau a gyfeirir gan oedolion yn y Cyfnod Sylfaen<br>➢ **R4** Gwella eglurdeb targedau o fewn cynlluniau addysg unigol i ddiwallu gofynion disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol yn well.. |
| Cymuned Ddysgu 3-1 Ebwy Fawr | ➢ **R1** Gwella gweithrediad gweithdrefnau'r ysgol ar gyfer diogelu llesiant disgyblion yn y cyfnod uwchradd, drwy ddelioi'n effeithlon gydag unrhyw ddigwyddiadau bwlio.<br>➢ **R2** Gwella sgiliau dysgu annibynnol a llefaredd disgyblion yn y cyfnod uwchradd.<br>➢ **R3** Gwella ansawdd dysgu, yn arbennig yn y cyfnod uwchradd.<br>➢ **R4** Sicrhau fod cynllunio hunanarfarnu a chynllunio gwella yn defnyddio'r ystod cyfan o dystiolaeth a gesglir gan yr ysgol.<br>➢ **R5** Gostwng nifer gwaharddiadau cyfnod penodol yn y cyfnod uwchradd.<br>➢ **R6** Sicrhau fod yr ysgol yn diwallu gofynion ar gyfer y weithred ddyddiol o gydaddoli yn y cyfnod uwchradd. |

| | |
|---|---|
| Ysgol Gyfun Tredegar | ➢ **R1** Gwella safonau Saesneg ar gyfnod allweddol 4.<br>➢ **R2** Sicrhau fod gan bob gweithgaredd hunanarfarnu ffocws cyson ar safonau a chynnydd disgyblion. |
| Ysgol Gymraeg Bro Helyg | ➢ **A1** Sicrhau bod yr addysgu a'r profiadau dysgu yn datblygu annibyniaeth holl ddisgyblion y cyfnod sylfaen yn gyson.<br>➢ **A2** Gwella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion ar draws yr ysgol.<br>➢ **A3** Cryfhau gweithdrefnau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn blaenoriaethu a mynd i'r afael â'r meysydd pwysicaf. |
| Ysgol Gynradd Sofrydd | ➢ **R1** Gwella sillafu, atalnodi, llawysgrifen a chyflwyniad gwaith disgyblion.<br>➢ **R2** Datblygu rôl cyngor yr ysgol a'r cyngor eco drwy roi mwy o gyfrifoldeb i aelodau.<br>➢ **R3** Gwella cyfleoedd i ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen i ddewis gweithgareddau ac i ddatblygu mwy o annibyniaeth yn eu dysgu<br>➢ **R4** Gwella cyfleoedd i ddisgyblion hŷn ddarllen Cymraeg. |
| Cymuned Ddysgu 3016 Canolfan yr Afon | ➢ **R1** Trin y materion hynny a ddynodwyd yn y llythyr iechyd a diogelwch.<br>➢ **R2** Sefydlu diben a gweledigaeth glir ar gyfer yr ysgol a gweithredu strwythur staffio sy'n addas i'r diben ac sy'n adlewyrchu rolau a chyfrifoldebau yn ddigonol.<br>➢ **R3** Sicrhau fod y cwricwlwm yn ddigon diddorol, eang a chytbwys ac yn paratoi disgyblion yn dda ar gyfer eu cam nesaf mewn bywyd a dysgu.<br>➢ **R4** Gwella ymddygiad disgyblion, yn neilltuol ar y campws uwchradd.<br>➢ **R5** Gwella ansawdd yr amgylchedd dysgu a diwylliant, yn arbennig ar y campws uwchradd.<br>➢ **R6** Gwella deilliannau ar gyfer disgyblion, yn arbennig y rhai ar y campws uwchradd.<br>➢ **R7** Sefydlu systemau, gweithdrefnau a threfn ar draws yr ysgol a gaiff eu deall yn glir gan staff a phartneriaid rhanbarthol. |
| Ysgol Sefydliadol Brynmawr | ➢ **R1** Gwella safonau disgyblion ar draws yr ysgol, yn cynnwys eu sgiliau llythrennedd a rhifedd.<br>➢ **R2** Gwella ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu.<br>➢ **R3** Gwella effeithlonrwydd addysgu i gymell, ymgysylltu a herio disgyblion i wneud cynnydd da mewn gwersi.<br>➢ **R4** Cryfhau arweinyddiaeth ar bob lefel i wella gallu arweinwyr i ddynodi meysydd ar gyfer eu datblygu ac i gynllunio'n effeithiol ar gyfer gwella. |
| Ysgol Gynradd Cwm | ➢ **R1** Sicrhau bod disgyblion yn y cyfnod sefydliadol yn cael cyfleoedd ystyrlon i ddatblygu fel dysgwyr annibynnol.<br>➢ **R2** Sicrhau bod athrawon yn cyfateb gweithgareddau gydag anghenion disgyblion o bob gallu, yn neilltuol y lleiaf galluog.<br>➢ **R3** Gwella ansawdd cyflwyniad, sillafu ac atalnodi yng nghyfnod allweddol 2. |

DRAFT